# Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman

# Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


**Cyflwyniad** .......... 4
**Yr ysgolion sy'n destun y cynigion** .......... 5
**Y Broses Ymgynghori** .......... 7
**Cefndir** .......... 12
**Y Cynigion** .......... 14
**1. Y Cynnig - Ysgol Feithrin Rhydaman** .......... 14
**Ansawdd a safonau mewn addysg** .......... 17
**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion** .......... 20
**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill** .......... 21
**Ffactorau cyffredinol eraill** .......... 22
**Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion** .......... 22
**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned** .......... 23
**Asesiad Effaith Integredig** .......... 25
**2. Y Cynnig - Ysgol Bro Banw** .......... 25
**Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin** .......... 28
**Ansawdd a safonau mewn addysg** .......... 30
**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion** .......... 34
**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill** .......... 35
**Ffactorau cyffredinol eraill** .......... 36
**Trefniadau Derbyn** .......... 36
**Asesiad Effaith Integredig** .......... 37
**3. Y Cynnig - Ysgol Gymraeg Rhydaman** .......... 38
**Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin** .......... 41
**Ansawdd a safonau mewn addysg** .......... 42
**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion** .......... 45
**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill** .......... 46
**Ffactorau cyffredinol eraill** .......... 47
**Trefniadau Derbyn** .......... 48
**Asesiad Effaith Integredig** .......... 49
**Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig hwn yn debygol o effeithio arni/arnynt** .......... 50

**Atodiad A - Ffurflen Ymateb**........................................................................................53
**Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg - Ysgol Feithrin Rhydaman**.........59
**Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg – Ysgol Bro Banw** .........................70
**Atodiad D – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg - Ysgol Gymraeg Rhydaman** ......80

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn egluro cynnig yr Awdurdod Lleol i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn nhref Rhydaman o fis Medi 2026 drwy:

1. Cau Ysgol Feithrin Rhydaman

Yn ogystal ag

2. ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11
3. ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11

i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Feithrin Rhydaman.

Pe bai'r cynigion ynghylch pwynt 1 yn mynd rhagddo, byddai holl gyn-ddisgyblion Ysgol Feithrin Rhydaman yn parhau i dderbyn eu haddysg yn rhan-amser o dan drefniadau llywodraethu Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman neu ysgol arall ar sail dewis y rhieni ac yn dilyn y broses derbyn i'r ysgol a gyhoeddir.

Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i ymgyngoreion gyflwyno unrhyw sylwadau neu opsiynau eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried.

Bydd y Cyfnod Ymgynghori ar gyfer y cynigion yn cael ei gynnal rhwng 4/9/25 a 16/10/25. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## Yr ysgolion sy'n destun y cynigion

| | | Ysgol Bro Banw | Ysgol Gymraeg Rhydaman | Ysgol Feithrin Rhydaman |
|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Adran Babanod<br>Ffordd Walter<br>Rhydaman<br>SA18 2NF<br>Adran Iau<br>Stryd Fawr<br>Rhydaman<br>SA18 2NS | Lôn yr Ysgol<br>Rhydaman<br>SA18 2NS | Stryd Fawr<br>Rhydaman<br>SA18 2NS |
| **Ystod Oedran** | | 4-11 | 4-11 | 3-5 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Cynradd Cymunedol | Cynradd Cymunedol | Ysgol Feithrin |
| **Categori Iaith** | | 3.1<br>3= Cyfrwng Cymraeg (3 dosbarth)<br>1=Cyfrwng Saesneg (14 dosbarth) | 3 (Cyfrwng Cymraeg) | 2 (Dwy Iaith) |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2025)** * *Nid yw'r cyfanswm yn cynnwys disgyblion Uned ADY Ysgol Bro Banw* | **Oedran Meithrin** | 14 | 22 | 81 |
| | **Derbyn – B.6** | 371 | 266 | Ddim ar gael |
| | **Cyfanswm** | 385* | 288 | 81 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys CYBLD meithrin)** | **Ionawr 2024** | 389 | 288 | 103 |
| | **Ionawr 2023** | 428 | 287 | 90 |
| | **Chwefror 2022** | 428 | 292 | 87 |
| | **Ebrill 2021** | 434 | 298 | 111 |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio disgyblion meithrin) (2025)** | **Ionawr 2026** | 367 | 251 | Ddim ar gael |
| | **Ionawr 2027** | 355 | 250 | Ddim ar gael |
| | **Ionawr 2028** | 341 | 247 | Ddim ar gael |
| | **Ionawr 2029** | 335 | 255 | Ddim ar gael |
| | **Ionawr 2030** | 336 | 253 | Ddim ar gael |
| **Capasiti Meithrin 24/25** | | 28 | 22 | 95 |
| **Capasiti Derbyn-B6 24/25** | | 495 | 210 | - |
| **Cyfanswm Capasiti 24/25** | | 523 | 232 | 95 |
| **Capasiti Meithrin 25/26** | | 25 | 16 | 95 |
| **Capasiti Derbyn-B6 25/26** | | 450 | 258 | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Capasiti 25/26** | 475 | 274 | 95 |
| **Cost fesul disgybl (2024/25)** | £7,292 | £4,260 | £4,803 |
| **Cyllideb Ysgol (2024/25)** | £3,281k | £1,227k | £495k |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn** | Adroddiad Arolygiad Ysgol Bro Banw 2024<br><br>www.estyn.llyw.cymru | Adroddiad Arolygiad Ysgol Gymraeg Rhydaman 2024<br><br>www.estyn.llyw.cymru | Adroddiad Arolygiad Ysgol Feithrin Rhydaman 2017<br><br>www.estyn.llyw.cymru |
| **Categori Cyflwr Adeilad (2024)** | B | B | B |

**(CYBLD) - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion**

| **Cyflwr** | |
|---|---|
| Gradd A | Fel newydd |
| Gradd B | Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig |
| Gradd C | Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig. |
| Gradd D | Anweithredol neu risg ddifrifol o fethiant mawr |

## Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

### Â phwy yr ymgynghorir?

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018)):

- *Rhieni (a darpar rieni lle bo'n bosibl), gofalwyr a gwarcheidwaid, ac aelodau staff ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt;*
- *yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion sy'n mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ddarpariaeth uwchradd honno;*
- *awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;*
- *unrhyw awdurdod lleol arall (gan gynnwys, lle bo'n briodol, awdurdod lleol yn Lloegr) y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arno – gan gynnwys, yn achos darpariaeth AAA ddynodedig, unrhyw awdurdod sy'n gosod neu sy'n debygol o osod disgyblion ag AAA ynddi;*
- *Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;*
- *unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;*
- *corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;*
- *cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;*
- *Gweinidogion Cymru;*
- *Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Cynulliad (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy'n cynrychioli ardaloedd a wasanaethir neu y bwriedir eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;*
- *Estyn;*
- *undebau'r athrawon ac undebau staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;*
- *y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol;*
- *Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal a wasanaethir, neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;*
- *unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir neu y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu, gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion;*
- *yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;*
- *yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;*

- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth AAA, unrhyw gyrff iechyd neu gyrff trydydd sector perthnasol â buddiant yn y cynigion;*
- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy’n gwasanaethu ardal yr ysgol; ac*
- *yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg.*

**Ymgynghori â Disgyblion**

Bydd disgyblion yn cael copi o Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc.

Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion (y Cyngor Ysgol o leiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Ymgynghorydd Cymorth Addysg.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## Beth sy’n digwydd nesaf?

### Cam 1. Cyfnod Ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 4/9/25 ac yn dod i ben ar 16/10/25.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig neu ddarparu awgrymiadau eraill. Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ni fydd unrhyw ymatebion sy’n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o’r broses ymgynghori.

**Ystyried eich sylwadau**
Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 16/10/25 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: AROLWG SNAP
- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk
- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1JP

- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (Atodiad A) a'i dychwelyd at Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin SA31 1JP neu trwy anfon copi sganedig trwy e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Nodwch mai dim ond drwy **un** dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol.

Bydd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

## Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol

Os yw'r Cabinet yn penderfynu mynd ymlaen â'r cynnig mae'n rhaid i Gyngor Sir Caerfyrddin gyhoeddi dogfen o’r enw “Hysbysiad Statudol”.

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad hefyd ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

## Cam 3. Penderfynu

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid arfaethedig yn mynd yn ei flaen. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu

gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

## Llinell Amser y Broses Statudol

Dyma linell amser ddangosol ar gyfer y broses statudol:

| Cam | Disgrifiad | Hyd |
|---|---|---|
| 1 | **Ymgynghori**<br>Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. | Medi 2025 - Hydref 2025<br>O leiaf 42 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 20 diwrnod ysgol) |
| 2 | **Adroddiad Ymgynghori**<br>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio.<br>NEU fel arall, daw'r cynnig i ben. | Ionawr 2026<br>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol |
| 3 | **Hysbysiad Statudol**<br>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. Bydd yr hysbysiad yn amlinellu manylion y cynnig ac fe'i cyhoeddir ar wefan y Cyngor a'i arddangos ger mynedfa'r ysgol a'r ysgolion sy'n destun y cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgol eu dosbarthu i'r rhieni, i'r gwarcheidwaid, ac i'r staff.<br>Bydd yr hysbysiad statudol yn rhoi manylion ynghylch y modd y gallwch gofnodi eich gwrthwynebiadau i'r cynnig. | Chwefror – Mawrth 2026<br>O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol a heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | **Adroddiad Gwrthwynebu**<br>Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Bydd copïau papur o'r adroddiad hefyd ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin.<br><br>Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad. | Mehefin 2026<br><br>Cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad. |
| 5 | **Penderfyniad**<br>Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig gyda newidiadau, ac wrth benderfynu bydd yn rhoi ystyriaeth i unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.<br>Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. | Mehefin 2026<br><br>Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu |

## Cefndir

Mae'r cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman wedi'i baratoi mewn ymateb i benderfyniad Cabinet y Cyngor i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin, lle roedd plant yn gymwys yn hanesyddol i fynd i addysg gynradd amser llawn ar ddechrau'r tymor ysgol pan oeddent yn troi'n bedair oed.

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd rhwng 19 Ionawr 2024 a 1 Mawrth 2024, penderfynodd Cabinet y Cyngor ar 25 Mawrth 2024 gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin, sy'n golygu, o 1 Medi 2025, y bydd plant yn gymwys ar gyfer ysgol amser llawn ar ddechrau'r tymor **ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed**. O'r dyddiad hwn, ni fydd unrhyw blant mewn darpariaeth amser llawn sy'n dair oed.

Mae plant sydd wedi troi'n dair oed yn gymwys i gael o leiaf 10 awr yr wythnos o ddarpariaeth addysg gymeradwy anstatudol ar sail sesiynol ran-amser, naill ai yn un o'r 42 o ysgolion cynradd yn y sir sydd wedi'u dynodi'n ysgolion 3-11 a lle mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnal gan y Cyngor, neu o leiaf 10 awr o addysg mewn lleoliadau cymeradwy nas cynhelir, fel meithrinfeydd dydd neu Gylchoedd Meithrin. Mae rhieni sy'n gweithio yn gallu cael mynediad at hyd at 30 awr o addysg a gofal plant wedi'u hariannu drwy Gynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3-4 oed cymwys.

Un o effeithiau cael gwared ar y Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed yw y bydd plant yn aros mewn lleoliadau darpariaeth feithrin a gofal plant am dymor ychwanegol bellach. Yn y tymor byr, gallai hyn greu galw ychwanegol am ddarparu addysg anstatudol ar gyfer mwy o blant tair oed, a galw cynyddol am ofal cofleidiol o bosib. Yn ddelfrydol, bydd y galw hwn yn cael ei fodloni gan y sector nas cynhelir lle bydd darparwyr yn gallu ehangu'r ddarpariaeth i dderbyn mwy o blant ar gyfer naill ai o leiaf 10 awr o addysg neu ofal cofleidiol, neu'r ddau.

Mewn cymunedau lle nad yw hyn yn digwydd a lle mae bylchau yn y ddarpariaeth o'r elfen addysg, mae'r Cyngor yn cynnig newid rhai o'i ysgolion 4-11 i fod yn ysgolion 3-11. Byddai hyn yn galluogi'r ysgolion hyn i ddarparu'r elfen o 10 awr o leiaf o addysg anstatudol a bod yn fwy cyson o ran darpariaeth ledled Sir Gaerfyrddin. Mae ysgol 3-11 yn derbyn cyllid dirprwyedig gan y Cyngor ar gyfer darparu addysg ran-amser i blant 3 oed.

Ar hyn o bryd, mae nifer fach o blant yn ardal Rhydaman yn derbyn addysg anstatudol y blynyddoedd cynnar yn Ysgol Feithrin Rhydaman, sef yr unig ysgol feithrin a gynhelir yn y sir. Mae plant yn cael eu derbyn i'r ysgol sydd ag ystod oedran 3 i 5 yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, ac maent yn gallu mynychu ar sail amser llawn ar hyn o bryd er y bydd hyn yn newid i ddarpariaeth ran-amser o fis Ionawr 2026. Mae'r holl ddarpariaeth feithrin arall mewn ysgolion a gynhelir ledled Sir Gaerfyrddin ar sail ran-amser.

O fis Medi 2025, byddai disgyblion yn gallu dewis trosglwyddo i le amser llawn mewn ysgol gynradd ar ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 4 oed, ond gall rhieni ddewis cadw eu plant yn yr ysgol feithrin nes iddynt gyrraedd oedran ysgol gorfodol, sef 5 oed, cyn symud ymlaen i ysgol gynradd.

Yn hanesyddol, yn bennaf mae rhieni wedi dewis anfon eu plant o Ysgol Feithrin Rhydaman i naill ai Ysgol Bro Banw neu Ysgol Gymraeg Rhydaman neu ysgolion eraill yn yr ardal. Drwy gau Ysgol Feithrin Rhydaman a chynyddu ystod oedran Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman, byddai hyn yn sicrhau bod y ddwy ysgol yn gyson ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin sy'n cynnig darpariaeth feithrin ran-amser.

# Y Cynigion

Mae'r cynigion hyn yn cael eu hystyried o dan adrannau 2.1 a 2.3 o'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018). Mae adran 2.1 yn cyfeirio at gau ysgol a gynhelir. Mae adran 2.3 yn cyfeirio at newidiadau a reoleiddir i ysgolion, sy'n cynnwys newid yn ystod oedran ysgol o flwyddyn neu fwy.

### Lleoliad yr Ysgolion sy'n destun y cynigion




## 1. Y Cynnig - Ysgol Feithrin Rhydaman

### Y Cynnig

Y cynnig yw cau'r ddarpariaeth yn Ysgol Feithrin Rhydaman.

### Y Trefniadau Presennol – *Status Quo*

Mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn Ysgol Feithrin Ddwy Ffrwd (categori 2) 3-5 yn nhref Rhydaman mewn ardal fasnachol a phreswyl gymysg a dyma'r unig ysgol o'i math yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn defnyddio adain yn Ysgol Bro Banw (uned iau) ac yn rhannu'r gegin a'r cyfleusterau bwyta cyfagos. Mae'n agos at Ysgol Gymraeg Rhydaman sydd hefyd yn rhannu'r gegin/cyfleusterau bwyta. Mae'r ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg mewn dwy ffrwd ar wahân ac felly ei chategori iaith yw Dwy Ffrwd.  Mae gan yr ysgol 81 o ddisgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2025) ar hyn o bryd ac mae ganddi gapasiti o 95 ar gyfer blwyddyn academaidd 25/26. Hyd yn hyn, mae Ysgol Feithrin Rhydaman wedi cynnig addysg feithrin ar sail amser

llawn sy'n wahanol i bob darpariaeth feithrin arall yn Sir Gaerfyrddin. O fis Ionawr 2026, dim ond ar sail ran-amser y mae'r ddarpariaeth hon.

Mae gwahanol fathau o ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gael ledled Sir Gaerfyrddin:

- 1 ysgol feithrin (Rhydaman)
- Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion cynradd 3-11
- Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, fel Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin a darparwyr preifat.

Mae gan Ysgol Feithrin Rhydaman yr un dalgylch ag Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman. Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion meithrin yn y ffrwd Saesneg wedi trosglwyddo i Ysgol Bro Banw ac mae disgyblion o'r ffrwd Gymraeg wedi trosglwyddo, yn bennaf, i naill ai Ysgol Gymraeg Rhydaman neu Ysgol Bro Banw. Mae tua thraean wedi trosglwyddo i ysgolion cyfagos eraill yn Rhydaman a thu hwnt.

**Cryfderau'r *Status Quo***

- Dim newid i staff, disgyblion a'r gymuned ehangach
- Ni fydd angen unrhyw weithdrefnau statudol
- Ethos ysgol fach

**Gwendidau'r *Status Quo***

- Diffyg parhad mewn addysg wrth drosglwyddo o ysgol feithrin annibynnol i ysgol gynradd o'i gymharu ag ysgol gynradd 3-11
- Datblygiad proffesiynol a chydweithio cyfyngedig i staff mewn ysgol feithrin annibynnol
- Adnoddau a chyllid cyfyngedig o'u cymharu ag ysgol gynradd fwy
- Mae rhieni sy'n dewis mynychu ysgol feithrin amser llawn yn effeithio o bosibl ar ysgolion cyfagos a darparwyr allanol sy'n cynnig darpariaeth addysg ran-amser

## Y rhesymeg dros newid

Yn unol â phenderfyniad Cabinet y Cyngor i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin ym mis Mawrth 2024, rhoddodd hyn gyfle i adolygu'r ddarpariaeth feithrin yn yr ardal i sicrhau dull cyson ar draws y sir.

## Cyfnod Pontio

Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, bydd y Cyngor yn rhoi cefnogaeth lawn i staff a llywodraethwyr yr holl ysgolion y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt drwy gydol y cyfnod pontio.
Bydd y ddarpariaeth arall yn cael ei chynnig yn:
Ysgol Bro Banw, Ffordd Walter a Stryd Fawr, Rhydaman, SA18 2NF
Ysgol Gymraeg Rhydaman, Lôn yr Ysgol, Rhydaman, SA18 2NS

## Manteision ac Anfanteision y cynnig

Manteision disgwyliedig y cynigion a'r anfanteision o'u cymharu â'r *status quo*.

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Pontio graddol a chefnogol ar gyfer plant 3 oed sy'n dechrau yn yr ysgol, gan ddechrau gyda hanner diwrnodau a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn. | Newid i staff a disgyblion, a theuluoedd sy'n dibynnu ar ddarpariaeth amser llawn at ddibenion gwaith/gofalu yn gorfod gwneud trefniadau eraill. |
| Posibilrwydd o gael cyflogaeth mewn ysgolion eraill, Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman. | Colli ethos ysgol fach a disgyblion yn gorfod addasu i amgylchedd ysgol mwy. |
| Safoni'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman yn unol ag ysgolion 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin. | |
| Bydd cael gwared ar ddarpariaeth amser llawn Awdurdod Lleol ar gyfer plant 3 oed yn ardal Rhydaman yn rhoi cyfle i ddarparwyr gofal plant preifat sy'n cynnig gofal cofleidiol. | |

## Rheoli Risg

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion ac unrhyw fesurau y mae eu hangen i reoli'r rhain;

| Risg | | Rheoli Risg |
|---|---|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig | Dilyn y canllawiau a bennwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 |
| 2. | Integreiddio disgyblion i'r ysgol arall/ysgolion eraill a gynigir | Bydd yr awdurdod yn gweithio gyda'r gymuned ysgol i sicrhau eu bod yn pontio ac yn integreiddio'n hwylus i'r ysgol. |

## Opsiynau Eraill a ystyriwyd

Mae amrywiaeth o opsiynau eraill wedi'u hystyried fel rhan o'r cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon, gan gynnwys rhesymau pam mae rhai wedi'u diystyru.

| Opsiwn Arall | Disgrifiad | Rheswm dros ddiystyru'r opsiwn |
|---|---|---|
| Opsiwn 1 | *Status Quo* – dim newid i Ysgol Feithrin Rhydaman | Nid yw'n cyd-fynd â phenderfyniad diweddar Cabinet y Cyngor Sir i gael gwared ar Bolisi Plant sy'n Codi'n 4 oed Sir Gaerfyrddin ac i fod yn gyson o ran darpariaeth ar draws ysgolion |

| | | |
|---|---|---|
| | | 3-11 Sir Gaerfyrddin. Ysgol Feithrin Rhydaman yw'r unig ysgol feithrin annibynnol yn Sir Gaerfyrddin sy'n darparu addysg amser llawn. |
| Opsiwn 2 | Ysgol Feithrin Rhydaman i gynnig darpariaeth feithrin i Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman | Colli cyfle i sicrhau bod Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cyd-fynd ag ysgolion 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin yn unol â dyheadau'r Cyngor Sir. |
| Opsiwn 3 | Bod Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn dod yn ysgolion 3-11. Bydd adeilad Ysgol Feithrin Rhydaman yn parhau i fwydo'r ddwy ysgol. | Mae digon o leoedd o ran adeiladau yn Ysgol Bro Banw. |

**Trefniadau Teithio Dysgwyr**

I fod yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim, rhaid i ddisgyblion fodloni nifer o feini prawf fel y nodir ym Mholisi Cludiant Ysgol - Cyngor Sir Caerfyrddin, ac un ohonynt yw bod disgyblion o oedran ysgol gorfodol. Gan fod y ddarpariaeth o addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol gorfodol, ni fyddai cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion ac felly nid oes unrhyw gostau cludiant cysylltiedig â'r cynnig hwn.

Byddai darpariaeth feithrin yn parhau i gael ei chynnig o adeilad presennol Ysgol Feithrin Rhydaman i ddarparu ar gyfer disgyblion meithrin rhan-amser os caiff y cynigion mynd rhagddynt. Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw oblygiadau cludiant ar gyfer trefniadau teithio dysgwyr.

## Ansawdd a safonau mewn addysg

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

**Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol / argymhellion Estyn:**

Cafodd Ysgol Feithrin Rhydaman ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Tachwedd 2017 ac ar hyn o bryd nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol wedi bodloni'r safonau gofynnol yn ystod yr arolygiad ac nid oes angen unrhyw waith monitro neu ymyrraeth ychwanegol gan Estyn.

Argymhellion Estyn o 2017:

- A1 - Cynllunio gwell cydbwysedd rhwng gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol er mwyn rhoi mwy o ryddid i blant fod yn greadigol wrth wneud penderfyniadau am eu dysgu

- A2 - Mireinio gweithdrefnau ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd plant
- A3 - Darparu cyfleoedd mwy naturiol i blant ymarfer eu sgiliau ysgrifennu rhydd yn annibynnol ar draws y meysydd dysgu

Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol:

- Sefydlu ymagwedd ysgol gyfan at les emosiynol a meddyliol, gan sicrhau bod anghenion a lles pob unigolyn yn cael eu diwallu'n briodol
- Parhau i hyrwyddo pwysigrwydd presenoldeb ar draws cymuned yr ysgol drwy ddarparu systemau cymorth bugeiliol i fynd i'r afael ag absenoldeb parhaus
- Datblygu prosesau asesu ymhellach i gynnwys proffilio manylach o ran asesu bod yn agored i niwed
- Datblygu cysylltiadau â rhieni ymhellach er mwyn iddynt gefnogi datblygiad eu plentyn

Effaith debygol y cynigion ar Ysgol Feithrin Rhydaman:

Effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman a throsglwyddo ei disgyblion gyda'u cyfoedion i ysgol gynradd 3-11, lle byddent yn debygol o gael amrywiaeth ehangach o brofiadau oherwydd eu bod mewn ysgol 3-11.

**Dysgu - safonau a chynnydd yn gyffredinol:**

- Nid oes unrhyw effaith bosibl ar ddatblygu sgiliau gan fod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau yn dda ym mhob ysgol.
- Mae pob adroddiad arolygiad yn nodi bod y rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'u mannau cychwyn.
- Barn y Cyngor yw y byddai Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn darparu addysg i ddisgyblion sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf i'r hyn a ddarperir yn Ysgol Feithrin Rhydaman neu'n well na hynny, felly ni ragwelir y byddai'r cynnig, pe bai'n mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:**

- Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, nid oes unrhyw effaith bosibl ar lesiant disgyblion gan y byddant yn aros gyda'u cyfoedion mewn ardal y maent eisoes yn gyfarwydd â hi.
- Mae pob adroddiad arolygiad yn nodi bod gan bron bob disgybl ddealltwriaeth sicr o sut i gadw'n ddiogel ac yn iach, a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae bron bob plentyn yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac ag oedolion ac yn caffael amrywiaeth da o fedrau personol a chymdeithasol; mae pob disgybl yn dangos parch a chwrteisi gwirioneddol at eu cyfoedion, oedolion ac eraill.
- Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn ystod y gwersi ac o amgylch yr ysgol ym mhob ysgol.

**Profiadau dysgu ac addysgu:**

- Nid oes unrhyw effaith negyddol bosibl gan fod ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm ar draws Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn effeithiol iawn.
- Mae athrawon ar draws yr ysgolion yn cynllunio'n fanwl ac yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n ennyn ac yn ysgogi diddordeb disgyblion.
- Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddent yn sicrhau cronfa fwy o staff i rannu arbenigedd i wella'r ddarpariaeth o ran dylunio'r cwricwlwm.
- Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddent yn hwyluso addysg ddi-dor, gyson gan leihau, felly, y posibilrwydd o aflonyddu wrth bontio o'r cyfnod meithrin i'r cyfnod cynradd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Nid oes unrhyw effaith bosibl ar ofal, cymorth a llesiant disgyblion gan fod y tair ysgol yn ddiogel. Mae'r ysgolion yn gynhwysol ac yn ofalgar ac mae gan ddisgyblion ymdeimlad cryf o berthyn.
- Mae gan yr ysgolion brosesau cadarn i nodi disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gynnar. Mae'r staff ar draws yr ysgolion yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol sy'n ymateb i anghenion disgyblion yn effeithiol, gan olrhain eu cynnydd yn gyson.
- Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, ni ragwelir y byddant yn cael effaith negyddol ar ddisgyblion agored i niwed gan fod y ddwy ysgol yn sicrhau darpariaeth effeithiol i bob dysgwr. Mae gan Ysgol Bro Banw ddosbarthiadau darpariaeth addysgu arbenigol, ac mae'n darparu gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol i bob disgybl, yn enwedig i'r rhai sydd ag ADY.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

- Ar hyn o bryd nid oes gan Ysgol Feithrin Rhydaman arweinyddiaeth barhaol. Mae pennaeth dros dro ar y safle am dri diwrnod yr wythnos ar ôl ymddeoliad y pennaeth blaenorol. Nid oes modd i'r ysgol recriwtio pennaeth llawn amser oherwydd cyfyngiadau ariannol. Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt byddai'r cynnig yn sicrhau bod gan bob disgybl bennaeth llawn amser parhaol ar y safle.
- Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig, pe bai'n cael ei fabwysiadu, yn effeithio ar ddatblygu blaenoriaethau cenedlaethol neu gyfleoedd dysgu proffesiynol i staff gan fod prosesau monitro effeithiol yn sicrhau bod arweinwyr, staff ac aelodau'r corff llywodraethu i gyd yn rhan o werthuso gwaith yr ysgol a chefnogi staff i nodi anghenion dysgu proffesiynol personol ochr yn ochr â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella ar draws pob ysgol.
- Os caiff ei fabwysiadu, bydd y cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion ar draws tri safle yn hytrach nag ar draws y pedwar safle presennol, a bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar y defnydd effeithlon o adnoddau i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy ar gyfer Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

- ***A fydd gan ddarpariaeth ysgol arall ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir***

Yr opsiwn a ffefrir yw darparu ar gyfer y disgyblion yn:

Ysgol Bro Banw, Ffordd Walter a Stryd Fawr, Rhydaman, SA18 2NF
Ysgol Gymraeg Rhydaman, Lôn yr Ysgol, Rhydaman, SA18 2NS

Mae digon o le yn Ysgol Bro Banw (safle babanod) i ddarparu ar gyfer y disgyblion meithrin ychwanegol.

Bydd hen adeilad Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael ei ddefnyddio i ddarparu'r lle ychwanegol sydd ei angen yn Ysgol Gymraeg Rhydaman.

Cyflwr adeilad Ysgol Bro Banw yw B a chyflwr adeilad Ysgol Gymraeg Rhydaman yw B sy'n golygu bod safon yr adeiladau yn y ddwy ysgol o leiaf yn cyfateb i Ysgol Feithrin Rhydaman (cyflwr adeilad B).

- ***A yw'r ddarpariaeth ysgol arall yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un categori iaith fel yr amlinellir yn "Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg", dogfen wybodaeth Llywodraeth Cymru Rhif: 023/2007; neu unrhyw ddogfennau olynol; ac***

Mae Ysgol Bro Banw yn ysgol ddwy ffrwd (categori 3.1) ac:

Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman yn ysgol cyfrwng Cymraeg (categori 3)

Bydd gan y ddwy ysgol ddigon o le i ddarparu ar gyfer disgyblion meithrin (niferoedd presennol ac amcanestyniadau o niferoedd) o Ysgol Feithrin Rhydaman – bydd Ysgol Bro Banw yn darparu ar gyfer disgyblion meithrin ar eu Safle Babanod a byddai Ysgol Gymraeg Rhydaman yn defnyddio adeilad presennol Ysgol Gymraeg Rhydaman sydd y drws nesaf iddi.

- ***I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.***

Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032 Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Byddai'r cynnig hwn yn cynnig addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i blant tair oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw a byddai'n cryfhau'r broses bontio

rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal tref Rhydaman.

- ***Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg***

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddent yn sicrhau mynediad at ddarpariaeth Gymraeg y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer ardal tref Rhydaman yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw. Ni fydd yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Mae Asesiad cychwynnol o'r Iaith Gymraeg wedi'i gynnal ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

- ***Natur siwrneiau i ddarpariaeth arall ac amseroedd teithio i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion AAA;***

Ni fydd dim neu fawr ddim effaith ar amseroedd teithio. Fel y gwelir o leoliad yr ysgolion sy'n destun y cynigion yn y llun o'r awyr yn gynharach yn y ddogfen hon, mae pob ysgol o fewn hanner milltir i'w gilydd.

- ***A fydd y cynigion yn gwella mynediad i bobl anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010***

Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol ar gyfer disgybl, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau sefydledig trefniadaeth ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas ag adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:

- ***Pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd gwag yn yr ardal;***

Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, rhagwelir y byddent yn cael effaith gadarnhaol ar leihau lleoedd gwag yn yr ardal.

- ***Costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael***
  Ddim yn berthnasol

- ***costau cludiant ychwanegol sy'n codi o ganlyniad i gynigion;***
  Dim costau cludiant ychwanegol.

- ***maint unrhyw arbedion net arfaethedig (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion);***
  Bydd arbediad refeniw o tua £180k (cyllid nifer y disgyblion) yn cael ei sicrhau o fis Ionawr 2026 oherwydd y newid o ddarpariaeth amser llawn i ddarpariaeth ran-amser.

## Ffactorau cyffredinol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â ffactorau cyffredinol eraill:

- ***Yr effaith y bydd y cynnig yn ei chael ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd***

Ni fyddai'r cynnig uchod yn debygol o gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd neu ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan y byddai tîm mwy o staff a mwy o adnoddau i gefnogi dysgwyr mewn ysgol fwy. Bydd cyfarfodydd pontio a chyfathrebu cryf yn digwydd cyn y newid. Bydd gan unrhyw ddysgwyr agored i niwed sydd angen cymorth ychwanegol fynediad at asiantaethau allanol a chyngor gan swyddog Awdurdod Lleol.

- ***Materion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb***

Nid oes unrhyw faterion amlwg o ran cydraddoldeb wedi'u nodi drwy'r Asesiad Effaith Integredig ar yr adeg hon. Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig yn tynnu sylw at unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

## Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

- ***A ellid ystyried sefydlu ysgolion â mwy nag un safle fel ffordd o gadw adeiladau, neu'r rhesymau dros beidio â dewis yr opsiwn hwn***

Mae amrywiaeth o opsiynau wedi'u hystyried fel y nodir yn y ddogfen hon yn ogystal â rheswm dros ddiystyru pob opsiwn. Bydd yr opsiwn a ffefrir yn cyd-fynd â dyheadau'r Cyngor Sir ar gyfer darpariaeth 3-11 gyfartal ledled Sir Gaerfyrddin.

- ***A ellid ystyried posibiliadau arall heblaw cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill (gan ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio cysylltiadau TGCh rhwng safleoedd ysgolion), neu'r rhesymau dros beidio ag ystyried y rhain fel opsiwn arall yn lle cau'r ysgol***

Wrth benderfynu ar opsiwn a ffefrir, byddai hen adeiladau Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael eu defnyddio ar gyfer y ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Rhydaman sydd ar bwys yr ysgol bresennol.

- ***A ellid archwilio'r posibiliadau o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol***

Fel y nodwyd uchod, os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, y bwriad yw defnyddio adeiladau presennol Ysgol Feithrin Rhydaman i ehangu'r ddarpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Rhydaman.

- ***Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol)***

Mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn darparu clwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol; nid yw'r ysgol yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw wasanaethau eraill.

Mae asesiad o'r effaith ar y gymuned wedi'i gwblhau gyda mewnbwn gan yr ysgol a bydd hwn yn cael ei gyflwyno a'i ystyried cyn i benderfyniad i gymeradwyo neu wrthod y cynigion gael ei wneud.

- ***Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig***

Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, bydd rhieni a disgyblion yn cael eu cefnogi drwy'r cyfnod pontio fel rhan o'r broses bontio gan sicrhau ymgysylltiad llawn â'r ysgolion eraill.

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

- ***Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;***

Nid oes dim data wedi'i gasglu gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer dalgylch Ysgol Feithrin Rhydaman.

- ***Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;***

Nid oes dim data wedi'i gasglu gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer dalgylch Ysgol Feithrin Rhydaman.

- ***Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau eraill a ddarperir yn yr ysgol e.e. clwb ieuenctid/cylch chwarae;***

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth ar ôl ysgol, sef Clwb Caleb, sy'n cael ei chynnal fel busnes ar wahân drwy gytundeb gosod. Defnyddir adeilad yr ysgol feithrin rhwng 3pm-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

- ***Gwybodaeth am unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill y mae'r ysgol yn eu darparu e.e. clybiau ar ôl ysgol, llyfrgell gymunedol;***

Mae Ysgol Feithrin Rhydaman yn darparu clwb brecwast rhwng 8-8.45am ar hyn o bryd.

- ***Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau;***

Mae'r ysgolion eraill isod yn cynnig clwb brecwast a darpariaeth ar ôl ysgol.

Ysgol Bro Banw, Ffordd Walter a Stryd Fawr, Rhydaman, SA18 2NF
Ysgol Gymraeg Rhydaman, Lôn yr Ysgol, Rhydaman, SA18 2NS

- ***P'un a gaiff neu p'un a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai'r ysgol ei chau (e.e. gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau);***

Dim newid

- ***Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall;***

Mae Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cynnig clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol sy'n debyg i'r hyn a gynigir yn Ysgol Feithrin Rhydaman.

Nid yw Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael ei defnyddio ar gyfer unrhyw wasanaethau eraill ar wahân i'r clwb brecwast a'r clwb ar ôl ysgol, ac mae'r ddau ohonynt ar gael yn yr ysgol arall/ysgolion eraill.

- ***Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgol arall yn yr un categori iaith;***

Dim newid

- ***Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol arall ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion (yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol);***

Byddai cysylltiad rhieni ag unrhyw ddarpariaethau a chyfleusterau eraill yn cael ei gefnogi drwy fod yn agos (o fewn pellter cerdded, dim angen teithio) a pherthnasoedd sydd eisoes wedi'u sefydlu.

- ***Yr effaith ar iechyd a llesiant, ee pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol;***

Dim newid – mae pob ysgol sy'n destun cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon yn agos at ei gilydd.

- ***Gwybodaeth am oblygiadau ehangach y newidiadau ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus;***

Dim newid

- ***Gwybodaeth am faterion diogelwch cymunedol ehangach.***

Dim newid

## Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiad effaith integredig wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl.

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

# 2. Y Cynnig - Ysgol Bro Banw

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Bro Banw o fod yn ysgol 4-11 i fod yn ysgol 3-11 o fis Medi, 2026.

## Y Trefniadau Presennol – *Status Quo*

Ar ôl cwblhau'r gweithdrefnau statudol yn llwyddiannus ym mis Chwefror 2008, daeth Ysgol Bro Banw i fodolaeth ar ddechrau tymor yr hydref ym mis Medi 2008 i gymryd lle hen Ysgol Iau Rhydaman ac Ysgol Fabanod Rhydaman. Mae Ysgol Bro Banw yn

parhau i weithredu ar ddau safle gan ddefnyddio adeiladau'r ddwy hen ysgol, sydd tua 0.5 milltir oddi wrth ei gilydd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Rhydaman yn bennaf, er y dylid nodi bod nifer o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch traddodiadol yn mynychu'r ysgol a'r uned arbennig yn yr ysgol. Mae Uned Iau Ysgol Bro Banw mewn strwythur unllawr a adeiladwyd tua 1926. Mae rhan o'r adeilad yn cael ei defnyddio gan Ysgol Feithrin Rhydaman ar hyn o bryd ac yng nghefn yr adeilad mae'r gegin a'r cyfleusterau bwyta sydd hefyd yn cael eu rhannu ag Ysgol Feithrin Rhydaman ac Ysgol Gymraeg Rhydaman. Mae uned cynhwysiant ADY yn yr ysgol hefyd.

Mae Ysgol Bro Banw yn ysgol ddwy ffrwd 4-11 (categori 3.1) nad yw'n cynnig darpariaeth addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed ar hyn o bryd. Mae hyn yn arwain at fwlch yn narpariaeth addysg yr ysgol rhwng 3 a 4 oed.

Mae addysg y blynyddoedd cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed.
Mae hawl gan bob plentyn 3 oed i gael lleoliad wedi'i ariannu am o leiaf 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig drwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

Mae gwahanol fathau o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gael ledled Sir Gaerfyrddin:

- 1 ysgol feithrin
- Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion cynradd 3-11
- Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, fel Blynyddoedd Cynnar Cymru, Mudiad Meithrin a darparwyr preifat.

Darperir addysg y blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Rhydaman sydd, fel y gwelir yn y llun ar dudalen 14, yn agos at Ysgol Bro Banw. Yn hanesyddol, yn bennaf mae rhieni wedi dewis anfon eu plant o Ysgol Feithrin Rhydaman i Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman, ac ysgolion eraill.

Nid yw'r trefniadau presennol/*status quo* presennol yn Ysgol Bro Banw yn cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg y blynyddoedd cynnar ag ysgolion 3-11 eraill yn y sir. Drwy gau Ysgol Feithrin Rhydaman a chynyddu ystod oedran Ysgol Bro Banw, byddai hyn yn sicrhau cysondeb ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin ac yn llenwi'n rhannol y bwlch yn y ddarpariaeth addysg sy'n cael ei greu yn sgil cau'r ysgol feithrin.

**Cryfderau'r *Status Quo***

- Dim newid i staff, disgyblion a'r gymuned ehangach
- Ni fydd angen unrhyw weithdrefnau statudol

**Gwendidau'r *Status Quo***

- Nid yw'r ysgol yn cynnig yr un ddarpariaeth addysg feithrin ag ysgolion 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin.
- Nid yw'r ysgol yn cynnig darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar ar y safle.
- Nid yw'n darparu parhad addysg posibl o gymharu ag ysgol gynradd 3-11

- Colli cyfle i drochi disgyblion yn y Gymraeg ar oedran iau gan wella datblygiad ieithyddol (Ffrwd Gymraeg)
- Nid yw'n cynnig yr un ddarpariaeth ag ysgolion cyfrwng Cymraeg 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin.

**Manteision cael mynediad at addysg blynyddoedd cynnar ar safle ysgol**

- Datblygu sgiliau sylfaenol yn gynnar
- Nodi anghenion dysgu yn gynnar
- Ymgysylltu â rhieni yn gynnar
- Helpu disgyblion i drosglwyddo i ddysgu cynradd a dysgu gydol oes

**Manteision ac Anfanteision y cynnig:**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Pontio graddol a chefnogol ar gyfer plant 3 oed sy'n dechrau yn yr ysgol, gan ddechrau gyda hanner diwrnodau a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn. | Cau Ysgol Feithrin Rhydaman |
| Darpariaeth feithrin ar gael ar safle'r ysgol | Lleihau'r galw am leoedd yn y meithrinfeydd preifat a chyda'r gwarchodwyr plant sy'n cynnig darpariaeth drwy'r dydd ar hyn o bryd. |
| Cefnogi datblygu sgiliau Cymraeg yn gynharach (ffrwd Gymraeg) mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol ac uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | |
| Gwella safonau addysg i blant yr ardal a chryfhau'n sylweddol broses bontio disgyblion meithrin i ddisgyblion oedran cynradd yn y sector cyfrwng Cymraeg (ffrwd Gymraeg), gan gynnig parhad a dilyniant di-dor i ddisgyblion | |
| Cynnig darpariaeth effeithiol a chynaliadwy i sicrhau cynnydd yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru ac mewn ymateb i safonau cenedlaethol a pholisïau lleol | |
| Gallai ddenu mwy o ddisgyblion i fynychu'r ysgol | |

| | |
|---|---|
| Cyfle posibl i gael cyflogaeth yn Ysgol Bro Banw | |
| Bydd yn denu cyllid fesul disgybl ychwanegol i'r ysgol | |
| Mynd i'r afael â'r bwlch yn addysg y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn ardal Rhydaman | |

**Rheoli Risg:**

| Risg | | Rheoli Risg |
|---|---|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig | Dilyn y canllawiau a bennwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 |
| 2. | Yr effaith ar yr economi leol yn sgil colli niferoedd mewn darparwyr meithrinfeydd preifat | Ymgynghori'n agored â darparwyr preifat ynglŷn â'r cynnig. |
| 3. | Nid yw'r dosbarth meithrin yn yr ysgol yn derbyn digon o geisiadau | Nid oes modd rhagweld nifer y ceisiadau. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y tîm derbyn. |

**Opsiynau Eraill a ystyriwyd**

| Opsiwn Arall | Disgrifiad | Rheswm dros ddiystyru'r opsiwn |
|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | *Status Quo* – dim newid i Ysgol Bro Banw | Nid yw'n cyd-fynd â dyheadau'r Cyngor Sir ar gyfer darpariaeth 3-11 ledled Sir Gaerfyrddin. |
| **Opsiwn 2** | Cynnig darpariaeth y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion cyfagos | Rhaid i ddisgyblion deithio allan o'r dalgylch i gael mynediad at ddarpariaeth addysg anstatudol y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed mewn ysgolion eraill. Mae'n bosibl na fydd disgyblion yn cael eu derbyn os oes pwysau ar leoedd yn yr ysgolion. |


## Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin

- ***Safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau a'r cyfleusterau a gynigir yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin.***

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, disgwylir y bydd ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4–11 i 3–11, ynghyd ag ehangu ei darpariaeth i gynnwys addysg y

blynyddoedd cynnar, yn llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth yn sgil cau Ysgol Feithrin Rhydaman. Hefyd, bydd y newid hwn yn sicrhau bod yr ysgol yn cyd-fynd ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin. Gallai cyflwyno addysg y blynyddoedd gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ysgol, gan gefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol ymhellach.

Os yw'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Bro Banw yn mynd rhagddo, darperir ar gyfer y disgyblion meithrin ychwanegol yn yr ardal a ddangosir ar y cynllun llawr isod ac felly byddai capasiti a nifer derbyn yr ysgol yn aros yr un fath.




- ***A oes angen rhagor o leoedd meithrin yn yr ardal*.**

Ar hyn o bryd darperir lleoedd meithrin yn Ysgol Feithrin Rhydaman. Bydd y cynnig hwn, os bydd yn mynd rhagddo, yn disodli'r ddarpariaeth a gynigir ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Rhydaman i sicrhau cysondeb o ran mynediad i addysg y blynyddoedd cynnar ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn y sir yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

- ***Lefel y galw am rai mathau o addysg feithrin e.e. cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth ac iddi natur grefyddol.***

Ar hyn o bryd darperir lleoedd meithrin yn Ysgol Feithrin Rhydaman mewn ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg. Bydd y cynnig hwn, os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, yn sicrhau cysondeb o ran addysg y blynyddoedd cynnar yn unol ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn y sir yn y ddwy iaith yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman.

- ***Effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr sector preifat a thrydydd sector*.**

Yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018), bydd y Ddogfen Ymgynghori yn cael ei rhannu â rhanddeiliaid allweddol y gallai'r cynnig effeithio arnynt, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;

Bydd hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn gallu ymateb i'r cynnig a mynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt o bosib am effaith y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11.

Bydd hyn yn galluogi'r Cabinet i ystyried yr holl farn ac effeithiau posibl cyn gwneud penderfyniad ynghylch sut i fwrw ymlaen.

- ***I ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.***

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cyfle i ddarpariaeth gofal cofleidiol gael ei chynnig gan nifer o ddarparwyr lleol sydd o fewn milltir i'r ysgol.

## Ansawdd a safonau mewn addysg

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

**Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol / argymhellion Estyn:**

Cafodd Ysgol Bro Banw ei harolygu ddiwethaf ym mis Ionawr 2024 ac ar hyn o bryd nid yw mewn categori “gweithgarwch dilynol”. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol wedi bodloni'r safonau gofynnol yn ystod yr arolygiad ac nid oes angen unrhyw waith monitro neu ymyrraeth ychwanegol gan Estyn.

O ganlyniad i'r ymweliad diwethaf, rhoddodd Estyn yr argymhellion canlynol:

- Gwella presenoldeb

- o Gwella safonau Cymraeg mewn dosbarthiadau cyfrwng Saesneg

Effaith debygol y cynigion ar Ysgol Bro Banw:

Barn y Cyngor yw y byddai Ysgol Bro Banw yn darparu addysg i ddisgyblion o 3-11 sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf i'r ddarpariaeth 4-11 a gynigir ar hyn o bryd, felly ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn hwn, pe bai'n mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

**Dysgu - safonau a chynnydd yn gyffredinol:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod y rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY), yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae bron bob un o'r disgyblion yn y darpariaethau addysgu arbenigol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.
- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml yn dda. Maent yn rhyngweithio'n effeithiol gydag oedolion ac yn datblygu medrau cyfathrebu cadarn.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion meithrin a derbyn yn mwynhau gwrando ar storïau a'u hailadrodd i'w ffrindiau ac i oedolion. Maent yn datblygu agweddau cadarnhaol at ddarllen ac yn dod yn gyfarwydd â chynnwys llyfrau.
- Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gyson gydag amser. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau echddygol manwl sicr sy'n eu paratoi ar gyfer ysgrifennu cynnar. Ar draws y dosbarthiadau Dysgu Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu darnau disgrifiadol a diddorol yn fwyfwy cywir ac yn defnyddio iaith er mwyn creu effaith.
- Mae disgyblion iau yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ymarferol sy'n ategu datblygiad eu geirfa fathemategol a'u medrau rhif.
- Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau corfforol yn dda trwy amrywiaeth eang o brofiadau pwrpasol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn frwdfrydig am weithgareddau corfforol yn yr ardal awyr agored, gan gynnwys sesiynau beicio ac ymarfer corff.
- Mae'r cynnig, os bydd yn mynd rhagddo, yn annhebygol o gael effaith negyddol gan fod dysgu a chynnydd yn ystod y blynyddoedd cynnar yn gryf.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod bron bob un o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn. Maent yn rhoi pwys ar y perthnasoedd gwaith cadarnhaol maen nhw'n eu datblygu gyda staff, sy'n rhoi anogaeth, cyfeiriad a chymorth iddynt. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ffynnu yn amgylchedd meithringar yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda o gwmpas yr ysgol ac maent yn gwrtais a chroesawgar tu hwnt i oedolion ac ymwelwyr. Maent yn

dangos gofal ac ystyriaeth tuag at ei gilydd ac yn cydweithredu'n effeithiol, gan ddangos parch tuag at gyfraniadau disgyblion eraill yn y dosbarth.

- Mae gan y rhan fwyaf ohonynt synnwyr cadarn o dda a drwg ac yn deall pwysigrwydd cefnogi hawliau plant. Mae ethos cynhwysol, cyfeillgar a meithringar yr ysgol yn cael ei adlewyrchu yn agweddau'r disgyblion tuag at ei gilydd, yn enwedig wrth groesawu disgyblion newydd i'r ysgol.
- Ar draws yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau pendant a chryf at ddysgu. Maent yn ymhél yn gadarnhaol â'r amrywiaeth o brofiadau dysgu cyffrous ac ysgogol y mae'r ysgol yn eu cynnig. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ymdawelu'n gyflym ac yn datblygu hyder a gwydnwch wrth ddyfalbarhau â'u gwaith neu eu chwarae.
- Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'n annhebygol o gael effaith negyddol gan fod gan yr ysgol amgylchedd meithringar effeithiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a llesiant dysgwyr.

**Profiadau dysgu ac addysgu:**

- Nododd Estyn mai un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r cyfoeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion. Mae arweinwyr a staff wedi cydweithio'n effeithiol i gynllunio a darparu cwricwlwm pwrpasol, blaengar ac ysgogol tu hwnt. Mae athrawon yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng addysgu uniongyrchol a dysgu ar sail ymholi yn fedrus. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn darparu amrediad cynhwysfawr o brofiadau dysgu dilys i'r holl ddisgyblion.
- Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio egwyddorion dysgu sylfaen yn dda i gynllunio amrywiaeth da o brofiadau dysgu a chwarae ymarferol, boddhaus i ddisgyblion iau. Mae'r defnydd cyson o brofiadau dilys o fywyd go iawn yn helpu i hoelio sylw disgyblion ar eu dysgu a datblygu'u medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol.
- Nodwedd ragorol o gwricwlwm yr ysgol yw'r pwyslais cryf ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o'u cynefin ac o hanes a threftadaeth Cymru.
- Mae gan yr holl staff berthnasoedd gwaith hynod effeithiol â disgyblion ac maent yn trin y disgyblion gyda charedigrwydd a pharch. Mae hyn yn meithrin amgylchedd cadarnhaol a chefnogol ar gyfer dysgu yng nghymuned yr ysgol. Maent yn darparu cymorth rhagorol i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn y dosbarthiadau prif ffrwd ac yn nosbarthiadau'r ddarpariaeth addysgu arbenigol. Mae bron bob un o'r athrawon yn sicrhau bod gan eu gwersi gyflymder effeithiol ac maent yn annog disgyblion i gydweithio er mwyn cwblhau tasgau a datrys problemau.
- Mae'n annhebygol y bydd y cynnig uchod, os bydd yn mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol, gan fod y cwricwlwm yn arloesol ac yn ysgogol iawn, gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion pob dysgwr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Mae'r adroddiad adolygiad yn nodi bod yr ysgol yn gymuned gynhwysol, ofalgar a thosturiol tu hwnt, lle mae lles pawb yn flaenoriaeth i arweinwyr a staff. Mae

bron bob agwedd ar fywyd yr ysgol ar gael yn gyfartal i ddisgyblion a darperir gofal, cymorth ac arweiniad rhagorol i'r holl ddisgyblion, yn enwedig y rhai sydd ag ADY.

- Mae staff yn darparu amrywiaeth eang o strategaethau ac ymyriadau effeithiol i helpu disgyblion i wella'u medrau, eu lles a'u hagweddau at ddysgu.
- Mae systemau trylwyr a chadarn ar waith i helpu nodi a monitro disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf o gymharu â'u mannau cychwyn.
- Nodwedd nodedig o ddarpariaeth yr ysgol yw'r trefniadau eithriadol i gefnogi datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn dylanwadu ar yr hyn maen nhw'n ei ddysgu, a sut, yn ogystal â'u hannog i drafod ystod o faterion cyfoes pwysig.
- Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf, effeithiol, sydd wedi'i hen sefydlu.
- Mae'n annhebygol y bydd y cynnig uchod, os bydd yn mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol, gan fod yr ysgol yn gymuned hynod gynhwysol a gofalgar sy'n hynod effeithiol wrth gefnogi lles pob dysgwr. Mae gan yr ysgol bolisïau cadarn ar waith i gefnogi dysgwyr yn eu hamgylchedd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth dosturiol, gefnogol a hynod effeithiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar fywyd disgyblion a'u teuluoedd. Mae wedi datblygu ethos tîm cryf, sy'n sicrhau bod yr holl staff yn cydweithredu'n llwyddiannus i sicrhau bod gweledigaeth yr ysgol, sef 'Annog pob plentyn i ddisgleirio', yn ganolog i'w gwaith.
- Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth defnyddiol o offer hunanwerthuso i amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella yn dda. Mae prosesau monitro pwrpasol yn sicrhau bod arweinwyr, staff ac aelodau'r corff llywodraethol i gyd yn cymryd rhan mewn gwerthuso gwaith yr ysgol.
- Mae'r ysgol wedi nodi ystod addas o flaenoriaethau gwella, sy'n canolbwyntio'n dda iawn ar addysgu a dysgu, lles disgyblion ac arweinyddiaeth. Mae prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella effeithiol yr ysgol yn sicrhau bod arweinwyr wedi gwella llawer o agweddau pwysig ar waith yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf.
- Os bydd yn mynd rhagddo, bydd y cynnig hwn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion a bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar y defnydd effeithlon o adnoddau i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy ar gyfer yr ysgol.

**Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag ADY a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd;**

Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, rhagwelir y bydd deilliannau dysgwyr yn cael eu gwella wrth i ddysgwyr gael eu hintegreiddio i amgylchedd dysgu priodol o oedran cynharach.

**Effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Bydd darparu addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn Ysgol Bro Banw o fudd i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan ei bod yn galluogi arsylwi ac asesu dysgwyr yn gynnar ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar ac ymyriadau amserol.

**Gallu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol**

Nid oes gan y Cyngor unrhyw bryderon ynghylch ansawdd addysgu a dysgu ac mae gan yr ysgol y gallu i ddarparu cwricwlwm pwrpasol i ddiwallu anghenion pob dysgwr.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

- ***I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd.***

Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032 Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Byddai'r cynnig hwn yn cynnig addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i blant tair oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw a byddai'n cryfhau'r broses bontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn ardal tref Rhydaman.

- ***Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg***

Os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt, byddai'n sicrhau mynediad at ddarpariaeth Gymraeg y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer ardal tref Rhydaman yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw. Ni fydd yn lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg.

Lle cynigir ysgol newydd, cynnydd mewn capasiti, neu helaethu'r ystod oedran;

**Tystiolaeth o angen/galw presennol neu yn y dyfodol yn yr ardal am leoedd ychwanegol, o ran categori iaith yr ysgol neu'r ysgol arfaethedig, cymeriad crefyddol dynodedig, a rhywedd (h.y. cydaddysgol/un rhyw);**

**Dylid** asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o unrhyw fath mewn ardal a dangos tystiolaeth ar ei gyfer. (Yn achos darpariaeth cyfrwng Cymraeg, byddai hyn yn

cynnwys asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a gynhelir yn unol ag unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 86 o Ddeddf 2013).

- ***A fydd y cynigion yn gwella mynediad i bobl anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010***

Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol ar gyfer disgybl, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau sefydledig trefniadaeth ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas ag adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:

- ***Pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd gwag yn yr ardal***

Rhagwelir, pe bai'n cael ei gymeradwyo, y byddai'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11 yn cael effaith gadarnhaol ar gael gwared ar leoedd gwag yn yr ysgol.

- ***Costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael;***

Mae ysgolion 3-11 a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn derbyn cyllid fformiwla dirprwyedig ar gyfer darparu addysg ran-amser i blant 3 oed. Mae hyn yn cyfateb i 50% o'r cyllid fesul pen ar gyfer disgyblion cynradd. Yn 2025-26 y ffigur hwn yw £2044 fesul disgybl ar y gofrestr ar adeg y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr cyn y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hwn yn gyllid ychwanegol ar gyfer ysgol sydd wedi'i dynodi'n ysgol 4-11 ar hyn o bryd ac sy'n dod yn ysgol 3-11.

- ***Staffio***

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth feithrin (yn dibynnu ar y niferoedd terfynol) yn cael ei staffio yn unol â'r trefniadau presennol mewn darpariaeth Blynyddoedd Cynnar.

- ***Y ffynonellau y darperir cyllid cyfalaf ohonynt***

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig.

- ***Sut y caiff unrhyw dderbyniadau cyfalaf neu arbedion costau rheolaidd eu defnyddio***

Nid yw’r cynnig hwn yn cynnwys trosglwyddo na gwaredu unrhyw dir nac adeiladau.

- ***Costau Cludiant Ychwanegol/Trefniadau Teithio Dysgwyr***

I fod yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim, rhaid i ddisgyblion fodloni nifer o feini prawf fel y nodir ym Mholisi Cludiant Ysgol - Cyngor Sir Caerfyrddin, ac un ohonynt yw bod disgyblion o oedran ysgol gorfodol. Gan fod y ddarpariaeth o addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol gorfodol, ni fyddai cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion ac felly nid oes costau cludiant cysylltiedig â’r cynnig hwn.

## Ffactorau cyffredinol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â ffactorau cyffredinol eraill:

- ***Effaith y cynnig ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd***

Bydd darparu addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn Ysgol Bro Banw o fudd i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd gan ei bod yn galluogi arsylwi ac asesu dysgwyr yn gynnar ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar ac ymyriadau amserol.

Rydym yn gwbl hyderus y bydd deilliannau dysgwyr yn cael eu gwella wrth i ddysgwyr gael eu hintegreiddio i amgylchedd dysgu priodol o oedran cynharach.

- ***Materion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb***

Nid oes unrhyw faterion amlwg o ran cydraddoldeb wedi'u nodi drwy'r Asesiad Effaith Integredig ar yr adeg hon. Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol yn tynnu sylw at unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr Asesiad yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

## Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Bro Banw:

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Cyngor Sir Caerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE
Rhif Ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

**Derbyn i'r Blynyddoedd Cynnar**

Mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd yn rhaid gwneud cais am le mewn ysgol i'r Awdurdod Derbyn cywir erbyn y dyddiad cau.

Mae hawl gan bob plentyn 3 oed i gael lleoliad wedi'i ariannu am o leiaf 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig drwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

Fel rheol, derbynnir plant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth honno ar gael yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

| 3ydd Pen-blwydd y Plentyn | Y Tymor Derbyn |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Tymor yr Haf |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Tymor yr Hydref |

Nid oes gan rieni/gwarcheidwaid hawl i apelio os na chynigir lle i'w plentyn mewn lleoliad blynyddoedd cynnar o'u dewis.

Ni fydd gan blentyn y cynigir lle rhan-amser iddo/iddi mewn ysgol, hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg amser llawn. Rhaid cyflwyno cais ffurfiol i'r awdurdod derbyn cywir.

Mae rhagor o wybodaeth am y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor.

Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, yn unol â gofynion statudol Llywodraeth Cymru, byddai Tîm Derbyn y Cyngor yn ymgymryd ag ymarfer derbyniadau untro y tu allan i'r trefniadau arferol, er mwyn sicrhau bod rhieni yng nghymuned Rhydaman yn cael cyfle i wneud cais am y lleoedd oedran meithrin sy'n dechrau ym mis Medi 2026.

## Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiad effaith integredig wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl.

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021

- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

# 3. Y Cynnig - Ysgol Gymraeg Rhydaman

## Y Cynnig

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o fod yn ysgol 4-11 i fod yn ysgol 3-11 o fis Medi, 2026.

## Y Trefniadau Presennol – *Status Quo*

Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman yn nhref Rhydaman mewn ardal fasnachol a phreswyl gymysg. Mae'r ysgol ar safle ger Ysgol Bro Banw (Uned Iau) ac Ysgol Feithrin Rhydaman. Mae gan Ysgol Gymraeg Rhydaman yr un dalgylch ag Ysgol Bro Banw.

Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman yn ysgol cyfrwng Cymraeg (categori 3) 4-11 ar hyn o bryd ac nid yw'n cynnig darpariaeth addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed. Mae hyn yn arwain at fwlch yn narpariaeth addysg yr ysgol rhwng 3 a 4 oed. Darperir addysg y blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Rhydaman sydd y drws nesaf i'r ysgol. Yn hanesyddol, yn bennaf mae rhieni wedi dewis anfon eu plant o Ysgol Feithrin Rhydaman i Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman, ac ysgolion eraill.

Nid yw'r trefniadau presennol/*status quo* presennol yn Ysgol Gymraeg Rhydaman yn cynnig yr un ddarpariaeth o ran addysg y blynyddoedd cynnar ag ysgolion 3-11 eraill yn y sir. Drwy gau Ysgol Feithrin Rhydaman a chynyddu ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman, byddai hyn yn sicrhau cysondeb ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin ac yn llenwi'n rhannol y bwlch yn y ddarpariaeth addysg sy'n cael ei greu yn sgil cau'r ysgol feithrin.

Mae addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed.
Mae hawl gan bob plentyn 3 oed i gael lleoliad wedi'i ariannu am o leiaf 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig drwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

Mae gwahanol fathau o ddarpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gael ledled Sir Gaerfyrddin:
- 1 ysgol feithrin (Rhydaman)
- Dosbarthiadau Meithrin/Blynyddoedd Cynnar mewn ysgolion cynradd 3-11

- Darpariaeth gan y sector nas cynhelir sy'n bartneriaid yn y Grŵp Hawliau Bore Oes, fel Blynyddoedd Cnnar Cymru, Mudiad Meithrin a darparwyr preifat.

**Cryfderau'r *Status Quo***
- Dim newid i staff, disgyblion a'r gymuned ehangach
- Ni fydd angen unrhyw weithdrefnau statudol
- Dim effaith ar Ysgol Feithrin Rhydaman

**Gwendidau'r *Status Quo***
- Nid yw'r ysgol yn cynnig yr un ddarpariaeth feithrin ag ysgolion cyfrwng Cymraeg 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin
- Nid yw'r ysgol yn cynnig darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar ar y safle.
- Nid yw'n darparu parhad addysg posibl o gymharu ag ysgol gynradd 3-11
- Colli cyfle i drochi disgyblion yn y Gymraeg ar oedran iau gan wella datblygiad ieithyddol
- Nid yw'n cynnig yr un ddarpariaeth ag ysgolion cyfrwng Cymraeg 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin.

**Manteision cael mynediad at addysg blynyddoedd cynnar ar safle ysgol**
- Datblygu sgiliau sylfaenol yn gynnar
- Nodi anghenion dysgu yn gynnar
- Ymgysylltu â rhieni yn gynnar
- Helpu disgyblion i drosglwyddo i ddysgu cynradd a dysgu gydol oes

**Manteision ac Anfanteision y cynnig:**

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Cefnogi datblygu sgiliau Cymraeg yn gynharach mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol ac uchelgais Llywodraeth Cymru o gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 | Cau Ysgol Feithrin Rhydaman |
| Pontio graddol a chefnogol ar gyfer plant 3 oed sy'n dechrau yn yr ysgol, gan ddechrau gyda hanner diwrnodau a symud ymlaen i ddiwrnodau ysgol llawn. | Lleihau'r galw am leoedd yn y meithrinfeydd preifat a chyda'r gwarchodwyr plant sy'n cynnig darpariaeth drwy'r dydd ar hyn o bryd. |
| Gwella safonau addysg i blant yr ardal a chryfhau'n sylweddol broses bontio disgyblion meithrin i ddisgyblion oedran cynradd yn y sector cyfrwng Cymraeg, gan gynnig parhad a dilyniant di-dor i ddisgyblion | |

| | |
|---|---|
| Cynnig darpariaeth effeithiol a chynaliadwy i sicrhau cynnydd yn unol â gofynion Cwricwlwm i Gymru ac mewn ymateb i safonau cenedlaethol a pholisïau lleol | |
| Mwy o gyfle i drochi disgyblion yn y Gymraeg ar oedran iau gan wella datblygiad ieithyddol | |
| Darpariaeth feithrin ar gael ar safle'r ysgol | |
| Gallai ddenu mwy o ddisgyblion i fynychu'r ysgol | |
| Cyfle posibl i gael cyflogaeth yn Ysgol Gymraeg Rhydaman | |
| Bydd yn denu cyllid fesul disgybl ychwanegol i'r ysgol | |

**Rheoli Risg:**

| Risg | | Rheoli Risg |
|---|---|---|
| 1. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i weithredu'r cynnig | Dilyn y canllawiau a bennwyd yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018 |
| 2. | Yr effaith ar yr economi leol yn sgil colli niferoedd mewn darparwyr meithrinfeydd preifat | Ymgynghori'n agored â darparwyr preifat ynglŷn â'r cynnig. |
| 3. | Nid yw'r dosbarth meithrin yn yr ysgol yn derbyn digon o geisiadau | Nid oes modd rhagweld nifer y ceisiadau. Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y tîm derbyn. |

**Opsiynau Eraill a ystyriwyd**


| **Opsiwn Arall** | **Disgrifiad** | **Rheswm dros ddiystyru'r opsiwn** |
|---|---|---|
| **Opsiwn 1** | *Status Quo* – dim newid i Ysgol Gymraeg Rhydaman | Nid yw'n cyd-fynd â dyheadau'r Cyngor Sir ar gyfer darpariaeth 3-11 ledled Sir Gaerfyrddin. |
| **Opsiwn 2** | Cynnig darpariaeth y blynyddoedd cynnar mewn ysgolion cyfagos | Rhaid i ddisgyblion deithio allan o'r dalgylch i gael mynediad at ddarpariaeth addysg anstatudol y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed mewn ysgolion eraill. Mae'n bosibl na fydd disgyblion yn cael eu derbyn os oes pwysau ar leoedd yn yr ysgolion. |

## Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin

- ***Safon yr addysg feithrin a digonolrwydd yr adeiladau a'r cyfleusterau a gynigir yn yr ystafell ddosbarth ac yn yr awyr agored, a hyfywedd unrhyw ysgol sydd am ychwanegu lleoedd meithrin.***

Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, disgwylir y bydd ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4–11 i 3–11, ynghyd ag ehangu ei darpariaeth i gynnwys addysg y blynyddoedd cynnar, yn llenwi'r bwlch yn y ddarpariaeth sydd wedi'i greu yn sgil cau Ysgol Feithrin Rhydaman. Bydd y newid hwn yn sicrhau bod yr ysgol yn cyd-fynd ag ysgolion 3-11 eraill yn Sir Gaerfyrddin. Gallai cyflwyno addysg y blynyddoedd gynyddu nifer y disgyblion sy'n dewis mynychu'r ysgol, gan gefnogi cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol ymhellach.

Cynigir cau Ysgol Feithrin Rhydaman a defnyddio'i hen safle i ddarparu digon o leoedd o ran ystafelloedd dosbarth ar gyfer darpariaeth feithrin ac ardaloedd awyr agored yn Ysgol Gymraeg Rhydaman.




- ***A oes angen rhagor o leoedd meithrin yn yr ardal.***

Ar hyn o bryd darperir lleoedd meithrin yn Ysgol Feithrin Rhydaman. Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, bydd yn disodli'r ddarpariaeth a gynigir ar hyn o bryd yn Ysgol Feithrin Rhydaman i sicrhau cysondeb o ran addysg y blynyddoedd cynnar ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn y sir yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw.

- ***Lefel y galw am rai mathau o addysg feithrin e.e. cyfrwng Cymraeg neu ddarpariaeth ac iddi natur grefyddol.***

Ar hyn o bryd darperir lleoedd meithrin yn Ysgol Feithrin Rhydaman mewn ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg. Bydd y cynnig hwn, os caiff ei gymeradwyo, yn sicrhau cysondeb o ran mynediad i addysg y blynyddoedd cynnar ag ysgolion cynradd 3-11 eraill yn y sir.

- ***Effaith y cynigion ar sefydliadau eraill, gan gynnwys darparwyr sector preifat a thrydydd sector.***

Yn unol â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018), bydd y Ddogfen Ymgynghori yn cael ei rhannu â rhanddeiliaid allweddol y gallai'r cynnig effeithio arnynt, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- awdurdod cynhaliol neu awdurdod cynhaliol arfaethedig unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arni;
- cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynnig, ym marn y cynigydd, yn debygol o effeithio arnynt;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin;
- yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, lle bo'r rhain yn bodoli;

Bydd hyn yn sicrhau bod rhanddeiliaid allweddol yn gallu ymateb i'r cynnig a mynegi unrhyw bryderon sydd ganddynt o bosib am effaith y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11.

Bydd hyn yn galluogi'r Cabinet i ystyried yr holl farn ac effeithiau posibl cyn gwneud penderfyniad ynghylch sut i fwrw ymlaen.

- ***I ba raddau y bydd y cynigion yn integreiddio addysg y blynyddoedd cynnar â gwasanaethau gofal plant neu i ba raddau y maent yn gyson â dull gweithredu integredig.***

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai darpariaeth gofal cofleidiol gael ei ddarparu gan nifer o ddarparwyr lleol sydd o fewn milltir i'r ysgol.

## Ansawdd a safonau mewn addysg

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yn yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

**Blaenoriaethau cyfredol yr ysgol / argymhellion Estyn:**

Cafodd Ysgol Gymraeg Rhydaman ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Hydref 2024 ac nid yw mewn categori gweithgarwch dilynol ar hyn o bryd.

O ganlyniad i'w ymweliad diwethaf, rhoddodd Estyn yr argymhellion canlynol:

- Parhau i roi trefniadau ar waith i leddfu diffyg gofod mewn rhai dosbarthiadau dros y cyfnod byr, gyda golwg i roi cynllun mwy hirdymor ar waith er mwyn ehangu'r ardal ddysgu.

**Effaith debygol y cynigion ar Ysgol Gymraeg Rhydaman:**

Barn yr Awdurdod Lleol yw y byddai Ysgol Gymraeg Rhydaman yn darparu addysg i ddisgyblion o 3-11 sydd o ansawdd cyfatebol o leiaf i'r ddarpariaeth 4-11 a gynigir ar hyn o bryd, felly os bydd yn mynd rhagddo, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith negyddol ar safonau a chynnydd yn gyffredinol.

**Dysgu - safonau a chynnydd yn gyffredinol:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod medrau llafar a chyfathrebu Cymraeg bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn, er enghraifft wrth chwarae rôl yng nghaffi'r ysgol. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau llythrennedd bron bob un disgybl yn datblygu'n dda yn y ddwy iaith.
- Mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau darllen ac ysgrifennu, er enghraifft wrth i'r disgyblion ieuengaf ddarllen llyfrau am adeiladau pwysig Cymru gan ddefnyddio'r wybodaeth i ysgrifennu ffeithiau diddorol i eraill.
- Mae medrau mathemateg a digidol bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn o oedran cynnar. Mae bron bob disgybl yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus ac yn gynyddol annibynnol.
- Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'n annhebygol o gael effaith negyddol gan fod dysgu a chynnydd yn ystod y blynyddoedd cynnar yn gryf.

**Llesiant ac agweddau at ddysgu:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod gan bob aelod o staff berthynas glòs a chynnes â'r disgyblion. Maent yn defnyddio ystod o dechnegau rheoli ymddygiad effeithiol ac o ganlyniad, mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu dysgu.
- Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, mae'n annhebygol o gael effaith negyddol gan fod gan yr ysgol ethos cynhwysol effeithiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a llesiant dysgwyr.

**Profiadau dysgu ac addysgu:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod yr athrawon yn cydweithio'n fwriadus er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio yn yr ardal leol. Drwy gynllunio amryw weithgareddau addysgol ysgogol a difyr, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant, hanes a threftadaeth yr ardal leol a Chymru.
- Mae'r defnydd pwrpasol a wneir o'r ardaloedd dysgu cyfoethog yn gryfder amlwg yn y ddarpariaeth. Mae'r staff yn darparu gweithgareddau dysgu difyr ac

ysgogol yn yr ardaloedd dysgu sy’n datblygu ystod o fedrau’r disgyblion yn effeithiol iawn.

- Mae’r athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol yn llwyddiannus. Maent yn holi’r disgyblion yn fedrus sy’n ymestyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau ymhellach.
- Mae'n annhebygol y bydd y cynnig uchod, os bydd yn mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol, gan fod y cwricwlwm yn eang ac yn ddifyr, gan sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pob dysgwr.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:**

- Mae’r adroddiad arolygiad yn nodi bod y staff yn hyrwyddo egwyddorion pwysig fel caredigrwydd, parch a bod yn glên yn effeithiol. O fewn y sesiynau addoli ar y cyd, mae disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i drafod pwysigrwydd bod yn ddinasyddion gwybodus a gofalgar, er enghraifft.
- Mae gan yr ysgol brosesau cadarn er mwyn adnabod disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn gynnar. Mae’r staff yn darparu rhaglenni cymorth pwrpasol sy’n effeithiol wrth ymateb i anghenion disgyblion, gan olrhain eu cynnydd yn gyson. Mae’r staff yn gweithio’n agos gyda’r rhieni er mwyn caffael eu barn a rhannu gwybodaeth yn amserol am ddatblygiad eu plant.
- Mae'n annhebygol y bydd y cynnig uchod, os bydd yn mynd rhagddo, yn cael effaith negyddol, gan fod cymuned gynhwysol a gofalgar sy'n effeithiol wrth gefnogi llesiant pob dysgwr. Mae gan yr ysgol bolisïau cadarn ar waith i gefnogi dysgwyr yn eu hamgylchedd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

- Mae'r adroddiad arolygiad yn nodi bod tîm ymroddedig o staff, o dan arweiniad cadarn y pennaeth, yn gweithredu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn dysgu a datblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu. Mae’r pennaeth yn modelu ac yn arddel gwerthoedd Cymreictod, hapusrwydd, parch a chyfeillgarwch sy’n sail i’w weledigaeth o greu ‘Dyffryn llawn dysg a chwerthin iach, a thân dros yr iaith ymhob plentyn bach’.
- Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw’r ymdeimlad o dîm cryf sy’n bodoli ymysg y staff a’r llywodraethwyr. Maent yn cydweithio’n hynod effeithiol er mwyn gwella’r ddarpariaeth a gynigir i’r disgyblion. Yn ei dro, mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth bron bob disgybl.
- Mae ystod glir o weithgareddau hunanwerthuso yn cael eu defnyddio gan yr ysgol yn dymhorol, gan gynnwys teithiau dysgu, craffu ar waith a holi disgyblion, sy’n cael effaith gadarnhaol iawn ar allu’r staff a’r llywodraethwyr i adnabod cryfderau’r ysgol a’r holl feysydd sydd angen eu gwella.
- Mae’r berthynas gynhyrchiol sy’n bodoli rhwng yr ysgol, y gymuned a’r rhieni yn gryfder amlwg.
- Os bydd yn mynd rhagddo, bydd y cynnig hwn yn debygol o arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion a bydd hynny'n cael effaith gadarnhaol ar y defnydd effeithlon o adnoddau i gyfrannu at ddyfodol cynaliadwy.

**Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag ADY a dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd:**

- Bydd darparu addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman o fudd i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan ei bod yn galluogi arsylwi ac asesu dysgwyr yn gynnar ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar ac ymyriadau amserol.
- Os bydd y cynnig hwn yn mynd rhagddo, rhagwelir y bydd deilliannau dysgwyr yn cael eu gwella wrth i ddysgwyr gael eu hintegreiddio i amgylchedd dysgu priodol o oedran cynharach.

**Effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)**

Bydd darparu addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman o fudd i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan ei bod yn galluogi arsylwi ac asesu dysgwyr yn gynnar ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar ac ymyriadau amserol.

**Gallu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol**

Nid oes gan yr Awdurdod Lleol unrhyw bryderon ynghylch ansawdd addysgu a dysgu ac mae gan yr ysgol y gallu i ddarparu cwricwlwm pwrpasol i ddiwallu anghenion pob dysgwr ac felly ni ddisgwylir y bydd unrhyw effaith amlwg os bydd y cynigion yn mynd rhagddynt.

## Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

- ***I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd***

Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022 - 2032 Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Deilliant 1, sef 'Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg'. Bydd newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 yn darparu addysg ran-amser cyfrwng Cymraeg i blant 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman, gan gryfhau'r broses bontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

- ***Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg.***

Pe bai'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 yn mynd rhagddynt, byddai'n ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg gan y byddai'n sefydlu addysg y Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yn nalgylch Ysgol Gymraeg Rhydaman gan alluogi disgyblion i gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg o oedran cynharach.

Lle cynigir agor ysgol newydd, cynyddu capasiti neu ehangu ystod oedran;

**Tystiolaeth o angen/galw yn yr ardal ar hyn o bryd neu yn y dyfodol am leoedd ychwanegol, gan gyfeirio at gategori iaith a chymeriad crefyddol dynodedig yr ysgol neu'r ysgol arfaethedig, a'i threfniadau derbyn o ran y rhywiau (h.y. cydaddysgol/un rhyw);**

Dylid asesu'r galw am ddarpariaeth ychwanegol o unrhyw fath yn yr ardal a darparu tystiolaeth o'r galw hwnnw. (Yn achos darpariaeth cyfrwng Cymraeg, bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a gynhelir yn unol ag unrhyw reoliadau a wnaed o dan adran 86 o Ddeddf 2013).

- ***A fydd y cynigion yn gwella mynediad i bobl anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010***

Mae gan yr ysgol gynllun hygyrchedd. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol ar gyfer disgybl, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau sefydledig trefniadaeth ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin.

## Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas ag adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill:

- ***Pa effaith y bydd cynigion yn ei chael ar nifer y lleoedd gwag yn yr ardal;***

Ar hyn o bryd nid oes lleoedd gwag yn Ysgol Gymraeg Rhydaman.

- ***Costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael***

Mae ysgolion 3-11 a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yn derbyn cyllid fformiwla dirprwyedig ar gyfer darparu addysg ran-amser i blant 3 oed. Mae hyn yn cyfateb i 50% o'r cyllid fesul pen ar gyfer disgyblion cynradd. Yn 2025-26 y ffigur hwn yw £2044 fesul disgybl ar y gofrestr ar adeg y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gynhelir ym mis Ionawr cyn y flwyddyn ariannol ganlynol. Mae hwn yn gyllid ychwanegol ar gyfer ysgol sydd wedi'i dynodi'n ysgol 4-11 ar hyn o bryd ac sy'n dod yn ysgol 3-11.

- ***Staffio***

Bydd yr ysgol yn rheoli staffio’r ddarpariaeth o addysg y Blynyddoedd Cynnar yn unol â'r trefniadau presennol.

- ***Y ffynonellau y darperir cyllid cyfalaf ohonynt***

Os caiff ei gymeradwyo, ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig.

- ***Sut y caiff unrhyw dderbyniadau cyfalaf neu arbedion costau rheolaidd eu defnyddio***

Bydd gweithdrefnau yn cael eu rhoi ar waith i drosglwyddo asedau i Ysgol Gymraeg Rhydaman.

- ***Costau Cludiant Ychwanegol/Trefniadau Teithio Dysgwyr***

I fod yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim, rhaid i ddisgyblion fodloni nifer o feini prawf fel y nodir ym Mholisi Cludiant Ysgol - Cyngor Sir Caerfyrddin, ac un ohonynt yw bod disgyblion o oedran ysgol gorfodol. Gan fod y ddarpariaeth o addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol gorfodol, ni fyddai cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion ac felly nid oes costau cludiant cysylltiedig â’r cynnig hwn.

## Ffactorau cyffredinol eraill

Mae'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â ffactorau cyffredinol eraill:

- ***Effaith y cynnig ar gyrhaeddiad addysgol ymhlith plant o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd***

Bydd darparu addysg anstatudol ran-amser y blynyddoedd cynnar i blant 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman o fudd i grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gan ei bod yn galluogi arsylwi ac asesu dysgwyr yn gynnar ac yn cefnogi'r gwaith o nodi anghenion yn gynnar ac ymyriadau amserol.

Rydym yn gwbl hyderus y bydd deilliannau dysgwyr yn cael eu gwella wrth i ddysgwyr gael eu hintegreiddio i amgylchedd dysgu priodol o oedran cynharach.

- ***Materion o ran cydraddoldeb, gan gynnwys y rhai a nodir yn sgil asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb***

Nid oes unrhyw faterion amlwg o ran cydraddoldeb wedi'u nodi drwy'r Asesiad Effaith Integredig ar yr adeg hon. Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig cychwynnol yn tynnu sylw at unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

## Trefniadau Derbyn

Y Cyngor Sir yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer Ysgol Gymraeg Rhydaman:

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Cyngor Sir Caerfyrddin
Yr Adran Addysg a Phlant,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE
Rhif Ffôn: 01267 246449

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

**Derbyn i'r Blynyddoedd Cynnar**

Mae Addysg y Blynyddoedd Cynnar yn ddarpariaeth anstatudol sydd ar gael i blant 3 oed a bydd yn rhaid gwneud cais am le mewn ysgol i'r Awdurdod Derbyn cywir erbyn y dyddiad cau.

Mae hawl gan bob plentyn 3 oed i gael lleoliad wedi'i ariannu am o leiaf 10 awr yr wythnos mewn sefydliad cofrestredig drwy'r Grŵp Hawliau Bore Oes o'r tymor yn dilyn ei drydydd pen-blwydd.

Fel rheol, derbynnir plant i ddarpariaeth blynyddoedd cynnar mewn ysgolion lle mae'r ddarpariaeth honno ar gael yn rhan-amser ar ddechrau'r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd.

| **3ydd Pen-blwydd y Plentyn** | **Y Tymor Derbyn** |
|---|---|
| 1 Medi - 31 Rhagfyr | Tymor y Gwanwyn |
| 1 Ionawr - 31 Mawrth | Tymor yr Haf |
| 1 Ebrill - 31 Awst | Tymor yr Hydref |

Nid oes gan rieni/gwarcheidwaid hawl i apelio os na chynigir lle i'w plentyn mewn lleoliad blynyddoedd cynnar o'u dewis.

Ni fydd gan blentyn y cynigir lle rhan-amser iddo/iddi mewn ysgol, hawl awtomatig i barhau i dderbyn addysg amser llawn. Rhaid cyflwyno cais ffurfiol i'r awdurdod derbyn cywir.

Mae rhagor o wybodaeth am y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion ar gael ar wefan y Cyngor.

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, yn unol â gofynion statudol Llywodraeth Cymru, byddai Tîm Derbyn y Cyngor yn ymgymryd ag ymarfer derbyniadau untro y tu allan i'r trefniadau arferol, er mwyn sicrhau bod rhieni yng nghymuned Rhydaman yn cael cyfle i wneud cais am y lleoedd oedran meithrin sy'n dechrau ym mis Medi 2026.

## Asesiad Effaith Integredig

Mae asesiad effaith integredig wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl.

Mae'r asesiad effaith integredig hwn yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol 2021
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau
- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

## Yr ysgol/ysgolion y mae'r cynnig hwn yn debygol o effeithio arni/arnynt

| Enw'r ysgol | | Ysgol Betws | Ysgol Parcyrhun | Ysgol y Bedol | Ysgol Llandybïe | Ysgol Blaenau | Ysgol Ffairfach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Y Betws, Rhydaman SA18 2HE | Ffordd Villiers, Rhydaman SA18 3HB | Heol Ffoland, y Garnant, SA18 2GB | Parc y Llan, Llandybïe, Rhydaman, SA18 3JB | Blaenau, Rhydaman, SA18 3BQ | Ffair-fach, Llandeilo, SA19 6SY |
| **Ystod Oedran** | | 3-11 | 4-11 | 3-11 | 3-11 | 4-11 | 4-11 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Cynradd Cymunedol | Cynradd Cymunedol | Cynradd Cymunedol | Cynradd Cymunedol | Cynradd Cymunedol | Cynradd Cymunedol |
| **Categori Iaith** | | 3,2 | 2 | 3 | T3 | 3 | 3 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2025)** | **Meithrin** | 10 | 14 | 35 | 29 | 1 | 4 |
| | **Derbyn – B.6** | 73 | 182 | 248 | 172 | 38 | 65 |
| | **Cyfanswm** | **83** | **196** | **283** | **201** | **39** | **69** |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (CYBLD gan gynnwys disgyblion meithrin)** | **Ionawr 2024** | 82 | 200 | 290 | 193 | 38 | 76 |
| | **Ionawr 2023** | 70 | 212 | 309 | 209 | 43 | 91 |
| | **Chwefror 2022** | 73 | 206 | 306 | 222 | 41 | 95 |
| | **Ebrill 2021** | 70 | 220 | 340 | 239 | 34 | 101 |

| Enw'r ysgol | | Ysgol Betws | Ysgol Parcyrhun | Ysgol y Bedol | Ysgol Llandybïe | Ysgol Blaenau | Ysgol Ffairfach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio disgyblion meithrin) (2025)** | **Ionawr 2026** | 75 | 183 | 243 | 169 | 37 | 62 |
| | **Ionawr 2027** | 77 | 185 | 230 | 164 | 39 | 66 |
| | **Ionawr 2028** | 81 | 187 | 223 | 161 | 36 | 65 |
| | **Ionawr 2029** | 83 | 182 | 224 | 161 | 37 | 68 |
| | **Ionawr 2030** | 84 | 187 | 225 | 161 | 36 | 70 |
| **Capasiti Meithrin 24/25** | | 14 | 27 | 24 | 38 | 12 | 12 |
| **Capasiti D-B6 24/25** | | 104 | 194 | 372 | 200 | 87 | 90 |
| **Cyfanswm Capasiti 24/25** | | 118 | 221 | 396 | 238 | 99 | 102 |
| **Capasiti Meithrin 25/26** | | 10 | 24 | 46 | 41 | 11 | 13 |
| **Capasiti D-B6 25/26** | | 76 | 195 | 325 | 209 | 87 | 97 |
| **Cyfanswm Capasiti 25/26** | | 86 | 219 | 371 | 250 | 98 | 110 |
| **Cost fesul disgybl (2024/25)** | | £4,620 | £5,568 | £5,772 | £4,892 | £5,828 | £4,979 |
| **Cyllideb Ysgol (2024/25)** | | £360k | £1,158k | £1,723k | £890k | £221k | £378k |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn** | | Adroddiad Arolygiad | Adroddiad Arolygiad Ysgol | Adroddiad Arolygiad Ysgol y Bedol 2018 | Adroddiad Arolygiad Ysgol Gynradd Llandybïe 2022 | Adroddiad Arolygiad Ysgol | Adroddiad Arolygiad Ysgol |

| Enw'r ysgol | Ysgol Betws | Ysgol Parcyrhun | Ysgol y Bedol | Ysgol Llandybïe | Ysgol Blaenau | Ysgol Ffairfach |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ysgol Betws 2020<br><br>www.estyn.llyw.cymru | Gynradd Parcyrhun 2025<br><br>www.estyn.llyw.cymru | www.estyn.llyw.cymru | www.estyn.llyw.cymru | Gynradd Blaenau 2024<br><br>www.estyn.llyw.cymru | Gynradd Ffairfach 2023<br><br>www.estyn.llyw.cymru |
| **Categori Cyflwr Adeilad (2024)** | B | B | A | C | B | B |

# Atodiad A - Ffurflen Ymateb

**FFURFLEN YMATEB – Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal tref Rhydaman**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ar y cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn Rhydaman drwy:

1. Cau Ysgol Feithrin Rhydaman

yn ogystal ag

2. ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11
3. ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11

i ddarparu ar gyfer disgyblion o Ysgol Feithrin Rhydaman

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i chi wneud sylwadau ar y prif gynnig a'r opsiynau eraill, ac awgrymu opsiynau eraill.

Gall ymgyngoreion gyflwyno sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig.

Ni fydd ymatebion sy'n dod i law yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau ac os ydynt yn dymuno gwrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Nodwch pa ysgol rydych chi'n gysylltiedig â hi:

☐ Ysgol Feithrin Rhydaman

☐ Ysgol Bro Banw

☐ Ysgol Gymraeg Rhydaman

☐ Ysgol arall

☐ Dim cysylltiad

2. Rhowch wybod i ni a ydych chi o blaid:

**Cynnig 1 – Cau Ysgol Feithrin Rhydaman**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Yn rhannol | | Dim barn | |

Unrhyw sylwadau ychwanegol?

| |
|---|
| |

**Cynnig 2 – Ymestyn ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Yn rhannol | | Dim barn | |

Unrhyw sylwadau ychwanegol?

| |
|---|
| |

**Cynnig 3 – Ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11**

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ydw | | Nac ydw | | Yn rhannol | | Dim barn | |

Unrhyw sylwadau ychwanegol?

| |
|---|
| |

3. Ydych chi'n ymateb fel:

- [ ] Rhiant/gofalwr neu warcheidwad
- [ ] Darpar riant/gofalwr neu warcheidwad
- [ ] Llywodraethwr
- [ ] Staff
- [ ] Aelod o'r gymuned
- [ ] Cyngor Cymuned
- [ ] Arall: Nodwch ______________________________

4. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn yr hoffech i ni eu hystyried?

5. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer ardal tref Rhydaman, yn eich barn chi?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

6. Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effaith gadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

7. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

   Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori?

   ☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

   Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Mr Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant,
Neuadd y Sir,
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1JP

neu trwy anfon copi sganedig trwy e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Fel arall, gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein AROLWG SNAP

**Dylech chi ddychwelyd eich ymateb erbyn 16/10/25. Ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.**

## Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg - Ysgol Feithrin Rhydaman

**Cynnig a Chefndir**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnig cau Ysgol Feithrin Rhydaman o fis Medi, 2026 ac mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ategu cynnig y Cyngor.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Cymraeg 2050** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Nodir uchelgais Llywodraeth Cymru hefyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n siarad yr iaith, yn ogystal â'r ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.
Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032) a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28)**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ac maent yn sylfaen i gyfraniad y Cyngor at gyrraedd y targed a nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru.  Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy’n medru defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Sir Caerfyrddin yn glir yn ei nod a’i egwyddor o ddatblygu gallu ein disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Bydd y cynnig hwn yn cyfrannu at wireddu'r amcanion strategol yn Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28) Sir Gaerfyrddin sy'n anelu at '*wneud y Gymraeg yn brif iaith y Sir ac adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd ar fywyd*'.

**Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg yn Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032**
Mae gan Addysg Sir Gâr – Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032 flaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol, sy'n gysylltiedig â'n Cenhadaeth Genedlaethol, pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae Diben 8 yn nodi y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin *"yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn ymfalchïo yn nhreftadaeth a diwylliant unigryw Sir Gaerfyrddin".*

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o Gwricwlwm i Gymru gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol. Mae'n pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed.

**Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?**

Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion 3-5 oed a'u teuluoedd yn ardal Rhydaman.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc drwy gynnig dewis ychwanegol o ran addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg o 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman. Bydd hyn, yn ei dro, o oedran ifanc, yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallant eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac yn enwedig pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gwaith.

Bydd y cynnig hwn yn galluogi Cyngor Sir Caerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn ardal Rhydaman, waeth beth fo'u cefndir, neu iaith eu teulu, gan sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Rydym yn disgwyl i unrhyw effaith fod yn gadarnhaol, am y rhesymau canlynol:

- Gall plant a phobl ifanc fanteisio ar addysg Gymraeg o 3 oed
- Bydd nodau'r cynnig hwn yn helpu Cyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni ei ymrwymiadau i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws yr effaith | A oes unrhyw fesurau wedi'u nodi i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd cadarnhaol? | Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru) |
|---|---|---|---|---|
| Categori Iaith yr ysgol (ffurfiol) | Categori iaith yr ysgol yw **2 - Dwy Iaith**<br><br>Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol ag oedran a gallu a'r ffrwd addysg. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr. Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Bydd o leiaf 50% o | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Gellid cyflawni hyn mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Gallai fod drwy ddefnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda dewis yn cael ei gynnig yn y grwpiau blwyddyn eraill, neu, fod 50% o weithgareddau'r ysgol yn Gymraeg drwyddi draw. | | | |
| Categori Iaith yr ysgol (anffurfiol) | Gallai'r cynnig hwn gryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol gyda'u cyfoedion o oedran iau yn yr ysgol arall/ysgolion eraill.<br><br>Yn sgil newid i ddarpariaeth 3-11 yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman, ein nod yw gweithio gyda'n holl bartneriaid i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr a theulu yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus cyn gynted â phosibl ym mywyd eu plentyn. | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol | **<u>Mewnbwn yr Awdurdod Lleol:</u>**<br><br>Yn Ysgol Feithrin Rhydaman, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn. Mae'r ymarferwyr yn modelu iaith yn arbennig o dda ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar y plant yn y ddwy frwd. | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau llafar yn arbennig o dda yn Saesneg yn y ffrwd Saesneg ac yn y Gymraeg yn y ddwy ffrwd. Mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion. Wrth drafod, maent yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa.<br><br>Mae medrau darllen cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn trin llyfrau gyda pharch ac yn deall eu bod yn darllen print o'r chwith i'r dde. Mae gan lawer ymwybyddiaeth ffonolegol gryf ac maent yn dechrau defnyddio'r wybodaeth i adeiladu geiriau'n llwyddiannus. Mae llawer o blant yn trafod cynnwys storïau dosbarth yn effeithiol, gyda'r plant hŷn yn rhagfynegi beth all ddigwydd nesaf yn y stori yn synhwyrol. Mae medrau ysgrifennu mwyafrif o'r plant yn datblygu'n effeithiol. Mae darpariaeth yr ysgol yn cefnogi datblygiad ysgrifennu cynnar disgyblion yn effeithiol drwy ffocws cryf ar weithgareddau cyn-ysgrifennu, gan gynnwys datblygu sgiliau motor bras a manwl, sy'n creu'r rheolaeth gorfforol angenrheidiol ar gyfer gwneud marciau ac ysgrifennu. Wrth iddynt symud ymlaen, maent yn defnyddio ystod eang o offer gan gynnwys sialc, brwsys paent, creonau a phensiliau yn llwyddiannus i wneud | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | marciau ar gyfer gwahanol bwrpasau. Mae llawer yn dal pensil yn gywir wrth ysgrifennu. Mae'r plant hŷn yn dechrau ffurfio llythrennau yn gywir, er enghraifft wrth ysgrifennu eu henwau yn lled annibynnol. Yn gyffredinol, ychydig o blant yn unig sy'n dewis ysgrifennu'n rhydd yn yr ardaloedd dysgu.<br><br>Mae'r staff yn modelu iaith yn arbennig o dda ac yn sicrhau cyfleoedd cyson i ymestyn geirfa'r plant yn ystod gweithgareddau, er enghraifft wrth chwarae rôl yn y caffi. Gwnânt ddefnydd ardderchog o ganeuon i ddatblygu patrymau iaith a medrau rhifedd y plant. Yn y ffrwd Saesneg, mae staff yn defnyddio'r Gymraeg yn fedrus yn ystod gweithgareddau bob dydd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafar y plant.<br><br>Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg yn gryfder yn y ddwy ffrwd. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol iawn i'r plant ddysgu a chanu hwiangerddi a rhigymau Cymraeg yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth plant o hanes a diwylliant Cymru. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith y Newid Arfaethedig**<br><br>Ni fyddai'r cynnig i gau Ysgol Feithrin Rhydaman yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth Gymraeg yn yr ardal. Byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad llawn at addysg cyfrwng Cymraeg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw.<br><br>Mae'r ddwy ysgol yn ddarparwyr addysg cyfrwng Cymraeg sefydledig ac maent yn gymwys i helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg o'r cyfnodau cynharaf. Yn bwysig ddigon, byddai dysgwyr yn elwa ar dderbyn eu haddysg yn yr un sefydliad o'r cyfnod meithrin hyd at ddiwedd y cyfnod cynradd. Mae'r parhad hwn yn cefnogi datblygiad cynyddol sgiliau ar draws y cwricwlwm ac yn hyrwyddo mwy o ruglder a hyder yn yr iaith Gymraeg.<br><br>Byddai trosglwyddo'r ddarpariaeth feithrin i'r lleoliadau hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i ffynnu yn y gymuned, yn ogystal â chynnig amgylchedd addysgol cyson a chefnogol i ddisgyblion.<br><br>**Mewnbwn Ysgol Feithrin Rhydaman:**<br>Mae'r ysgol yn dweud ei bod wedi ymrwymo'n bendant i hyrwyddo'r iaith | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gymraeg a diwylliant Cymru ar draws pob agwedd ar fywyd yr ysgol: | | | |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol e.e clybiau'r Urdd | Ar hyn o bryd mae adeilad yr ysgol yn cynnig darpariaeth ar ôl ysgol, sef Clwb Caleb, sy'n cael ei chynnal fel busnes ar wahân drwy gytundeb gosod rhwng 3pm-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. | Cadarnhaol | Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ar ôl ysgol a chyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol e.e. drwy'r Urdd a Menter Iaith. | Cadarnhaol |
| Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau | Ddim yn berthnasol | Niwtral | Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i aelodau'r gymuned e.e. cegin gymunedol yn Ysgol Bro Banw. | Cadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| trwy gyfrwng y Gymraeg | | | | |
| Yr effeithiau y gallai penderfyniad polisi eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. | Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw yn darparu llu o weithgareddau a digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a fydd yn cyfoethogi profiadau plant a'u teuluoedd.<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.<br><br>Bydd dogfennau'r ymgynghoriad yn ddwyieithog sy'n golygu y bydd y cyhoedd yn cael cyfle i ddarllen dogfennau yn ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg a darparu ymateb yn eu dewis iaith. | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â | **Y weledigaeth: Y flwyddyn 2050**: *Mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei* | Cadarnhaol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun. | *defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn a system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb.*<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod.<br><br>Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. | | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau y bydd plant meithrin/tair oed yn gallu derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Gymraeg Rhydaman ac Ysgol Bro Banw. | | | |

**Casgliad a Chrynodeb**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhagweld effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn a fydd yn cynnig darpariaeth arall i blant 3 oed yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman o fis Medi, 2026.

## Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg – Ysgol Bro Banw

**Cynnig a Chefndir**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu newid ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11 o fis Medi, 2026 ac mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ategu cynnig y Cyngor.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Cymraeg 2050** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Nodir uchelgais Llywodraeth Cymru hefyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n siarad yr iaith, yn ogystal â'r ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.
Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032) a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28)**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ac maent yn sylfaen i gyfraniad y Cyngor at gyrraedd y targed a nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru.  Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy’n medru defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Sir Caerfyrddin yn glir yn ei nod a’i egwyddor o ddatblygu gallu ein disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Bydd y cynnig hwn yn cyfrannu at wireddu'r amcanion strategol yn Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28) Sir Gaerfyrddin sy'n anelu at '*wneud y Gymraeg yn brif iaith y Sir ac adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd ar fywyd*'.

**Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg yn Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032**
Mae gan Addysg Sir Gâr – Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032 flaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol, sy'n gysylltiedig â'n Cenhadaeth Genedlaethol, pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae Diben 8 yn nodi y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin *"yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn ymfalchïo yn nhreftadaeth a diwylliant unigryw Sir Gaerfyrddin".*

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o Gwricwlwm i Gymru gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol. Mae'n pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed.

**Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?**

Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion 3 oed a'u teuluoedd yn ardal Rhydaman.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc drwy gynnig dewis ychwanegol o ran addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg o 3 oed yn Ysgol Bro Banw. Bydd hyn, yn ei dro, o oedran ifanc, yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallant eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac yn enwedig pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gwaith.

Bydd y cynnig hwn yn galluogi Cyngor Sir Caerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Bro Banw, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn ardal Rhydaman, waeth beth fo'u cefndir, neu iaith eu teulu, gan sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Rydym yn disgwyl i unrhyw effaith fod yn gadarnhaol, am y rhesymau canlynol:

- Gall plant a phobl ifanc fanteisio ar addysg Gymraeg o 3 oed

- Bydd nodau'r cynnig hwn yn helpu Cyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni ei ymrwymiadau i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg.

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws yr effaith** | **A oes unrhyw fesurau wedi'u nodi i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd cadarnhaol?** | **Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)** |
|---|---|---|---|---|
| Categori Iaith yr ysgol (ffurfiol) | Categori iaith yr ysgol yw **3.1 -** 3= Cyfrwng Cymraeg (3 dosbarth)<br>1=Cyfrwng Saesneg (14 dosbarth)<br><br>**Categori 3** - Cyfrwng Cymraeg. Disgrifir y categori hwn fel a ganlyn - *Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.* | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Categori 1** - Cyfrwng Saesneg. Disgrifir y categori hwn fel a ganlyn - *Saesneg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol yn ogystal â chyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr. Cydnabyddir y bydd creu ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg yn unol ag oedran a gallu, a bydd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Caiff y Gymraeg ei haddysgu a'i hasesu fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.*<br><br>Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar iaith addysg y disgyblion yn yr ysgol. | | | |
| Categori Iaith yr ysgol (anffurfiol) | Gallai'r cynnig hwn gryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r ffrwd Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol gyda'u cyfoedion o oedran iau.<br><br>Yn sgil newid i ddarpariaeth 3-11, ein nod yw gweithio gyda'n holl bartneriaid i hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i sicrhau bod pob rhiant/gofalwr a theulu yn | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gallu gwneud penderfyniad gwybodus cyn gynted â phosibl ym mywyd eu plentyn. | | | |
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol | **<u>Mewnbwn yr Awdurdod Lleol:</u>**<br><br>Mae Ysgol Bro Banw yn cynnig cymorth cadarn i ddisgyblion sy'n mynychu'r dosbarthiadau cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth addysgu arbenigol. Mae'r cwricwlwm blaengar a chyffrous, sy'n seiliedig ar ymholi, yn ysgogi diddordeb disgyblion a'u brwdfrydedd tuag at ddysgu. Er bod llawer o ddisgyblion yn dechrau'r ysgol gyda medrau cymharol wan, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu gydag amser.<br><br>Er nad yw'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd, maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.<br><br>Yn dilyn arolygiad gan Estyn ym mis Ionawr 2024, nodwyd 'Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yn gwneud cynnydd priodol wrth ddefnyddio Cymraeg achlysurol, yn enwedig yn ystod sesiynau croeso'r bore. Maent yn ymateb yn addas i ysgogiadau a | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | chwestiynau cyfarwydd ac yn ymuno’n frwdfrydig â chaneuon a rhigymau. Wrth i ddisgyblion symud trwy’r ysgol, mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa ac yn deall geiriau ac ymadroddion sylfaenol yn y dosbarth ac yn ystod gwersi Cymraeg. Ers yr arolygiad, mae'r ysgol wedi cryfhau ei hymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn y dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yn flaenoriaeth allweddol i'r ysgol ac maent yn gweithio'n rhagweithiol ochr yn ochr â'r Tîm Gwella'r Gymraeg i ddatblygu a gwella sgiliau Cymraeg disgyblion.<br><br>Mae cwricwlwm yr ysgol yn rhoi pwyslais cadarn ac effeithiol ar ddatblygu ymwybyddiaeth disgyblion o’u ‘cynefin’ ac o hanes a threftadaeth Cymru. Mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu am Gymru a'r Gymraeg. Er enghraifft, mae disgyblion Meithrin yn defnyddio mapiau’n hyderus i ymweld â Rhydaman i adnabod nodweddion naturiol a nodweddion dynol arbennig. Mae disgyblion Blwyddyn 5 yn cymhwyso’u medrau digidol yn effeithiol i greu animeiddiadau diddorol am hanes Taliesin ac mae disgyblion Blwyddyn 4, ynghyd â’u cymheiriaid yn y dosbarth cyfrwng Cymraeg, yn datblygu’u medrau | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ysgrifennu yn llwyddiannus i greu adolygiadau teithio ar-lein manwl yn dilyn taith ar Reilffordd Mynydd Brycheiniog.<br><br>**Effaith y Newid Arfaethedig**<br><br>Byddai ymestyn yr ystod oedran i dderbyn plant 3 oed yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae trochi cynnar yn ystod oedran meithrin yn ddull sefydledig o gryfhau datblygiad dwyieithog. Byddai dysgwyr yn elwa ar ddod i gysylltiad â'r iaith am gyfnod hirach, gan gefnogi mwy o rugldер a hyder. Byddai'r newid hwn yn darparu sylfaen ieithyddol gref a fydd yn galluogi disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog a dwyieithog o fewn yr un sefydliad o'r cyfnod meithrin hyd at ddiwedd y cyfnod cynradd. | | | |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy’n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio’r Gymraeg yn yr ysgol e.e clybiau’r Urdd | Mae'r ysgol yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Urdd, megis gwyliau chwaraeon, teithiau preswyl ac ati.<br>Cynhaliwyd clwb ar ôl ysgol yr Urdd ar gyfer plant oedd yn paratoi ar gyfer cystadlaethau'r Eisteddfod. Mae yna hefyd glwb Cymraeg ar ôl ysgol ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2 a gynhelir ar sail cylchdro. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gweithgareddau Menter Iaith - Dawnsio, Cwis Clem a Chwis Llyfrau. | | | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cadarnhaol | | |
| Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg | Mae'r ysgol yn defnyddio'r gegin gymunedol i gyflwyno gweithdai maeth a choginio i rieni. Mae'r rhain yn cael eu cyflwyno gan ein Swyddog Prosiect Teulu sy'n rhugl yn y Gymraeg ac maent yn cael eu cyflwyno'n ddwyieithog. | Cadarnhaol | | |
| Yr effeithiau y gallai penderfyniad polisi eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Byddai'r cynnig hwn yn cyflwyno darpariaeth y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol ac felly'n cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn parhau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.<br>Bydd dogfennau'r ymgynghoriad yn ddwyieithog sy'n golygu y bydd y cyhoedd yn cael cyfle i ddarllen dogfennau yn ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg a darparu ymateb yn eu dewis iaith. | | | |
| Gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun. | **Y weledigaeth: Y flwyddyn 2050**: *Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn a system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb.*<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod.<br><br>Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. | | | |

**Casgliad a Chrynodeb**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhagweld effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn i newid ystod oedran Ysgol Bro Banw o 4-11 i 3-11 o fis Medi, 2026.

## Atodiad D – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg - Ysgol Gymraeg Rhydaman

**Cynnig a Chefndir**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn bwriadu newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 o fis Medi, 2026 ac mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ategu cynnig y Cyngor.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Cymraeg 2050** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Nodir uchelgais Llywodraeth Cymru hefyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n siarad yr iaith, yn ogystal â'r ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.
Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032) a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28)**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ac maent yn sylfaen i gyfraniad y Cyngor at gyrraedd y targed a nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru.  Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy’n medru defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Sir Caerfyrddin yn glir yn ei nod a’i egwyddor o ddatblygu gallu ein disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Bydd y cynnig hwn yn cyfrannu at wireddu'r amcanion strategol yn Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28) Sir Gaerfyrddin sy'n anelu at '*wneud y Gymraeg yn brif iaith y Sir ac adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd ar fywyd*'.

**Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg yn Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032**

Mae gan Addysg Sir Gâr – Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032 flaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol, sy'n gysylltiedig â'n Cenhadaeth Genedlaethol, pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae Diben 8 yn nodi y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin *"yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn ymfalchïo yn nhreftadaeth a diwylliant unigryw Sir Gaerfyrddin".*

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o Gwricwlwm i Gymru gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol.  Mae'n pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed.

**Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?**

Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion 3 oed a'u teuluoedd yn ardal Rhydaman.

Bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc drwy gynnig dewis ychwanegol o ran addysg y blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg o 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman. Bydd hyn, yn ei dro, o oedran ifanc, yn cynnig sgiliau Cymraeg i blant a phobl ifanc y gallant eu defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd ac yn enwedig pan fyddant yn gadael yr ysgol ac yn dechrau gwaith.

Bydd y cynnig hwn yn galluogi Cyngor Sir Caerfyrddin i gynyddu'r ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Gymraeg Rhydaman, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc yn ardal Rhydaman, waeth beth fo'u cefndir, neu iaith eu teulu, gan sicrhau bod mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn datblygu sgiliau Cymraeg y gellir eu defnyddio mewn bywyd bob dydd.

Rydym yn disgwyl i unrhyw effaith fod yn gadarnhaol, am y rhesymau canlynol:

- Gall plant a phobl ifanc fanteisio ar addysg Gymraeg o 3 oed
- Bydd nodau'r cynnig hwn yn helpu Cyngor Sir Caerfyrddin i gyflawni ei ymrwymiadau i'r Gymraeg, siaradwyr Cymraeg a chymunedau Cymraeg.

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws yr effaith** | **A oes unrhyw fesurau wedi'u nodi i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd cadarnhaol?** | **Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)** |
|---|---|---|---|---|
| Categori Iaith yr ysgol (ffurfiol) | Categori iaith yr ysgol yw **3 -** Cyfrwng Cymraeg. Disgrifir y categori hwn fel a ganlyn - *Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.*<br><br>Ni fyddai'r cynnig hwn yn effeithio ar iaith addysg y disgyblion yn yr ysgol. | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Categori Iaith yr ysgol (anffurfiol) | Bydd y cynnig hwn yn cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u cyfoedion o oedran iau. | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol | **Mewnbwn yr Awdurdod Lleol:**<br><br>Mae'r iaith Gymraeg a dathlu Cymreictod y disgyblion yn ganolbwynt i fywyd a gwaith Ysgol Gynradd Gymraeg Rhydaman. Mae'r pennaeth yn modelu ac yn arddel gwerthoedd Cymreictod, hapusrwydd, parch a chyfeillgarwch sy'n sail i'w weledigaeth. Rhennir y weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda chymuned ehangach yr ysgol.<br><br>Mae'r athrawon yn cydweithio'n fwriadus er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio yn yr ardal leol. Drwy gynllunio amryw weithgareddau addysgol ysgogol a difyr, maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliant, hanes a threftadaeth yr ardal leol a Chymru. Er enghraifft, mae'r staff yn cynnig cyfleoedd cyson i'r disgyblion ddysgu am fannau hanesyddol lleol, gan annog y disgyblion i wneud cymariaethau rhwng bywydau trigolion o wahanol gyfnodau a'u bywydau nhw heddiw. Mae'r staff yn cydweithio'n agos | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ag aelodau'r gymuned sy'n elfennol wrth ddwysáu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y disgyblion o'u cynefin.<br><br>Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw ymrwymiad cyfunol staff i ddatblygu sgiliau llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae oedolion yn modelu Cymraeg o ansawdd uchel ac yn annog defnyddio'r Gymraeg ar draws yr ysgol, gan feithrin balchder yn yr iaith a pharch mawr at dreftadaeth a diwylliant yr ardal leol a Chymru gyfan. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn defnyddio'r Gymraeg yn frwdfrydig ac yn dangos balchder gwirioneddol yn eu hunaniaeth ddiwylliannol.<br>Mae athrawon yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i wreiddio'n gadarn yn y cyd-destun lleol a thirwedd ehangach Cymru.<br><br>Mae medrau siarad a chyfathrebu Cymraeg bron bob un o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Wrth i ddisgyblion symud ymlaen drwy'r ysgol, mae medrau llythrennedd bron bob disgybl yn datblygu'n effeithiol yn y ddwy iaith. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn cyfathrebu'n hyderus ac yn naturiol yn Gymraeg. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Mae medrau darllen bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn yn unol â'i gam dilyniant. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn fwyfwy effeithiol yn Gymraeg a Saesneg ac yn esbonio'r cynnwys yn fanwl. Maent yn amrywio tôn eu llais lle bo angen ac yn defnyddio mynegiant clir wrth ddarllen yn uchel. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn gadarn drwy wneud marciau'n fedrus mewn amrywiaeth o ffurfiau ac ar amrywiaeth o ddeunyddiau fel papur, tywod a cherdyn. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion yn adeiladu'n gadarn ar eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith. Maent yn ysgrifennu mewn ystod o genres ac yn addasu'r arddull a'r strwythur i wahanol destunau yn hyderus ac yn effeithiol.<br><br>**Effaith y Newid Arfaethedig**<br><br>Byddai ymestyn yr ystod oedran i dderbyn plant 3 oed yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Mae trochi cynnar yn ystod oedran meithrin yn ddull sefydledig o gryfhau datblygiad dwyieithog. Byddai dysgwyr yn elwa ar ddod i gysylltiad â'r iaith am gyfnod hirach, gan gefnogi mwy o ruglder a hyder. Byddai'r newid hwn yn darparu sylfaen ieithyddol gref a fydd yn | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | galluogi disgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr uchelgeisiol, galluog a dwyieithog.<br><br>**Mewnbwn Ysgol Gymraeg Rhydaman:**<br>Cymraeg yw iaith holl fywyd a gwaith yr ysgol, yn ystod a thu hwnt i oriau ysgol. Mae meithrin balchder yn ein gwlad, ein hiaith a'n diwylliant yn un o'n gwerthoedd fel ysgol, ac mae ein holl weithgarwch yn troi o gwmpas hyn. Fel y nodwyd gan Estyn yn eu hadroddiad ynghylch ein harolygiad diweddar *"Mae'r iaith Gymraeg a dathlu Cymreictod y disgyblion yn ganolbwynt i fywyd a gwaith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn fyrlymus wrth gyfathrebu yn y Gymraeg ac yn dangos balchder at ddiwylliant a threftadaeth eu bro a Chymru yn ehangach." (Hydref 2024)*<br><br>Byddai newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn rhoi cyfleoedd ar gyfer trochi yn y Gymraeg yn gynharach o 3 oed. Gallai hyn gryfhau sgiliau iaith disgyblion wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol. | | | |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r | Mae'r ysgol yn cynnal clybiau ar ôl ysgol dros gyfnodau drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys chwaraeon, garddio, digidol, celf a chrefft, a chlybiau triathlon. Mae'r clybiau hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac o dymor i dymor. Mae | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gymraeg yn yr ysgol e.e clybiau’r Urdd | gennym hefyd glwb gofal ar ôl ysgol a ddarperir gan Fenter Dinefwr, sy'n cael ei gynnal yn yr ysgol bob nos rhwng 3.30-5.30pm. Mae'r rhain i gyd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, gan mai hon yw iaith yr ysgol, ac mae'n gyfle ychwanegol i'n disgyblion gymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg. | Cadarnhaol | | Ddim yn berthnasol |
| Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg | Mae'r ysgol yn darparu gwybodaeth i rieni drwy e-bost am gyfleoedd i ddysgu a datblygu eu Cymraeg a'u hyder i'w defnyddio e.e. Clwb Cwtsh. Rydym hefyd yn derbyn myfyrwyr ar y Cwrs Sabothol gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant i'r ysgol yn ystod y flwyddyn, er mwyn iddynt gael cyfle i ymarfer eu Cymraeg a meithrin hyder i'w defnyddio. Rydym yn cynnal cyngherddau a sioeau Cymraeg bob hydref ac adeg y Nadolig, rydym yn cynnal ffeiriau bob Nadolig a haf, mae ein Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yn cwrdd sawl gwaith y tymor i drefnu gweithgareddau, ac rydym yn cynnig cyfleoedd i'n rhieni ddod i sesiynau Mathemateg ac Iaith yn yr ysgol i ddeall sut i gefnogi eu plant gartref - mae'r rhain i gyd yn gyfleoedd i'n rhieni wneud gweithgaredd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae popeth rydym yn ei wneud yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac rydym yn cyflwyno ac yn croesawu'n | Cadarnhaol | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddwyieithog ar ddechrau ac ar ddiwedd pob cyngerdd a sioe. Rydym yn defnyddio offer cyfieithu mewn cyfarfodydd lle bo angen e.e. cyfarfod Llywodraethwyr a chyfarfodydd rhieni ag Estyn. | | | |
| Yr effeithiau y gallai penderfyniad polisi eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Byddai'r cynnig hwn yn cynyddu darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly'n cynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br><br>Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd.<br><br>Bydd dogfennau'r ymgynghoriad yn ddwyieithog sy'n golygu y bydd y cyhoedd yn cael cyfle i ddarllen dogfennau yn ymwneud â'r cynnig yn Gymraeg ac yn Saesneg a darparu ymateb yn eu dewis iaith. | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun. | **Y weledigaeth: Y flwyddyn 2050**: *Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn a system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb.*<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod.<br><br>Nod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin yw hyrwyddo cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | medru defnyddio'r Gymraeg gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.<br><br>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Deilliant 1, sef 'Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg'. Byddai newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 yn darparu addysg ran-amser cyfrwng Cymraeg i blant 3 oed yn Ysgol Gymraeg Rhydaman, gan gryfhau'r broses bontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Byddai'r cynnig hwn yn darparu cyfleoedd cynharach ar gyfer trochi yn y Gymraeg o 3 oed, gan ddatblygu sgiliau iaith sylfaenol yn ystod blynyddoedd ffurfiannol disgyblion a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi i wneud hynny drwy gydol eu taith addysgol. | | | |

**Casgliad a Chrynodeb**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhagweld effaith gadarnhaol ar y Gymraeg o ganlyniad i'r cynnig hwn i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 o fis Medi, 2026.